

ECO'R WYDDFA

RHIF 8

HYDREF 1976

Pris: 8g

NEWID FFYRDD

Mae rhaglen drafnidiaeth addas yn hanfodol i fywyd a dyfodol ein bro. Er na fydd y ffyrdd pwysig megis yr A55, ffordd osgoi newydd Bangor a Phont Menai, a'r A5 yn ymestyn i ddalgylch y papur hwn, bydd eu dylanwad yn aruthrol.

Bydd adeiladu ac ail gynllunio llwybrau'r ffyrdd mawr yma yn sicr o fod yn fendith i fasnach a diwydiant y fro, ond fe olyga hyn fwy o drafnidiaeth ar ein ffyrdd ni Mae'n ofynnol felly i ffyrdd y fro gael eu hail gynllunio a'u gwella i dderbyn y dylifiad trafnidiaeth yma ac i ganiatau i ni, drigolion y fro, symud yn rhwydd a diogel boed hynny mewn car neu ar droed.

Dyma, felly, fraslun o gynlluniau sydd ar y gweill gan y Cyngor Sir i adnewyddu ffyrdd y fro yn ystod y 5 mlynedd nesaf ynghyd a'r costau.

1976-77. Sylwer fod rhain yn cael eu hadeiladu neu wedi eu cwblhau.

Ffordd Osgoi Cwm-y-Glo, £584,000; Ffordd gan y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan i osgoi Deiniolen: £165,000; Nant-y-Garth i Bentir: £100,000; Pont Victoria Llanberis: £80,100

1977-78. Pont Gromlech: £28,300; Nant Peris - Llwybr y Weirglodd: £46,200; Groeson Tŷ Mawr i Felin Uchaf: £60,500; Felin Wen i Bontrug: £72,000; Groeson Tŷ Mawr i Ffarm Tŷ Mawr: £45,000.

1978-79. Rhwng Minffordd a Thros-y-Ffordd Llanrug: £25,000

1979-80. Erw Hywel i Greuor Llanrug: £50,000; Erw Hywel i Sgwâr Llanrug: £45,000.

1981-82. Glan yr Afon i Greuor: £50,000; Tyddyn Corn i Glan yr Afon: £25,000.

Dyma restr o'r cynlluniau a fydd o dan £25,000.

O'r Capel i Dai Cyngor Nant Peris; Ffordd Afon Rhos Llanrug; Gorffwysfa Ceir Ffordd Osgoi Llanberis; gwella'r weledfa ym Mhontrug; Ffordd Fachwen; gwella'r mynedfeydd ym Mhentre Helen; gwella'r cyffordd wrth Asheton House Deiniolen; Gors Bach; Chwarel Fuchell; Ffyrrdd troed Penisarwaun.

Rhaid cofio mai prisiau Tachwedd 1975 yw'r rhai uchod.

Mae'r cynlluniau hyn yn galonddid mawr i ni drigolion y fro, er fod mannau peryglus iawn, megis sgwâr Llanrug a'r ffordd rhwng Llanrug a Bethel i enwi dau fan heb eu nodi - ond gallwn ddibynnu'n helaeth ar ein Cyngorwyr i ymladd ac i sicrhau y bydd rhain hefyd yn cael eu trin yn y dyfodol agos.

EIN DYFODOL YN Y FANTOL

Daeth cryn ymateb i'r erthygl yn dwyn y pennawd "Arswyd Atomig yn y Fro Hon" yn rhifyn diwethaf o *Eco'r Wyddfa*.

Nid cynnyrch dyfalu ar ran Draenog oedd cynnwys yr erthygl ond cynnyrch oriau o ymchwil ar ei ran i ddod â gwirioneddau dychrynlyd i'r wyneb bron i fis o amser cyn i neb arall feddwl am y peth.

Mae *Eco'r Wyddfa* yn awgrymu eich bod i gyd yn ei hail ddarllen i gynefino eich hunain â'r ffeithiau erchyll sydd yn amlygu eu hunain yn y fath gynllun. Does dim pwrpas ail adrodd, mae'r ffeithiau yn rhifyn 7 ar ddu a gwyn.

Cynhwysir yma lythyr a ddaeth i law'r golygydd oddi wrth y mudiad "Cyfeillion y Ddaear" (*Friends of the Earth*) yn cadarnhau datganiad Draenog ac yn eich gwahodd i gyd i weld dros och eich hun y peryglon sy'n bodoli o fabwysiadu'r fath gynllun.

Yn y dyfodol agos bydd y llywodraeth yn penderfynu a ddylid codi math newydd o Atomfa, sef yr ymweithydd bridol cyflym (fast breeder reactor) ym Mhrydain.

Mae nifer o beryglon arswydus ynglŷn ag adeiladu'r math yma o Atomfa, ac yn wir roedd prif erthygl rhifyn Medi o "*Eco'r Wyddfa*" yn datgan pryder ac ofn ynglŷn â'r datblygiad yma.

Er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y peryglon, mae cangen Môn ac Arfon o 'Cyfeillion y Ddaear' yn dangos y ffilm "*The Plutonium Connection*" yn Ystafell Darlithio 4, Adeilad Celfyddyd Newydd, Prifysgol Gogledd Cymru, Ffordd y Coleg, Bangor am 8 o'r gloch, nos Iau, Hydref 14.

Dowch draw, mae ein dyfodol, a dyfodol ein plant, yn y fantol.

Cyfeillion y Ddaear (Môn ac Arfon)
Manylion Pellach - Caernarfon 3838.



BBC YN Y FRO

Ar wahoddiad *Eco'r Wyddfa* daw y rhaglen boblogaidd "Hawl i Holi" i Ysgol Gynradd Llanrug ar nos Fawrth, Tachwedd 2ail. Mawr obeithiwn y dewch chi yno'n llw fel cynulleidfa - ond ar hyn o bryd 'rydym yn awyddus iawn i ddarllenwyr yr *Eco* anfon cwestiynau i holi'r panel ar y rhaglen. Gallwch ofyn cwestiynau ar unrhyw bwnc dan haul yn ddifrifol neu yn ysgafn. Os teimlwch ar eich calon fod gennych gwestiwn i'w ofyn - ysgrifennwch at y Golygydd, Gwên-y-Wawr, Llanrug gynted ag sy'n bosibl gan gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, rhif ffôn, ac wrth gwrs, peidiwch ag anghofio'ch cwestiwn.

Yn ystod Gorffennaf ac Awst y flwyddyn yma bu Band Deiniolen yn diddori'r teithwyr ar y llong Duke of Lancaster sy'n teithio rhwng Caergybi a Dunlaughire, Iwerddon. Er bod sawl un wedi bod yn sâl ar y pedair siwrnai, fe gafwyd amser bythgofiadwy!

ECO'R WYDDFA

RHIF 8

HYDREF 1976

Golygydd : Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.

Ffôn : Caernarfon 3719.

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

CYFRANIADAU

£2. Cangen Adloniant Dinorwig a'r Cylch o Fudiad Adfer y Fro Gymraeg.

£5 Mair Rowlands, Bodafon, Cwm-y-Glo

£1 Mrs. N. Lovatt, Brwynog, Llanrug

£3 Dr. R. Fraser Williams, 95, Moss Lane, Sale, Cheshire.

Llawer o ddiolch i'r pedwar.

Enillydd teitl i lun yr eliffant oedd Mari o'r Bont — sef Mrs. Mary Lloyd Williams, Llys Awen, Llanrug ac mae hi yn garedig iawn yn dychwelyd y wobr o £1 yn ôl i'r "ffyrn". Ein llongyfarchiadau a'n diolchiadau Mrs. Williams.

TAN-Y- COED

YN YR YSBYTY

Y mae Mrs. Jennie Maud Griffith, Llys Meredydd yn Ysbyty Bryn Seiont. Anfonwn gofion yr ardal ati, a'n dymuniadau gorau am adferiad buan.

CYFARFOD Y PLANT

P'nawn Sul, Medi 19 yng Nghapel Tan-y-Coed cafwyd cyfarfod arbennig i'r plant. Yn ystod y gwasanaeth gwobrwywyd y plant fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau Ysgrifenedig a Llafar, y gwaith hwn wedi ei ohirio oherwydd amgylchiadau anorfod. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y gweinidog Y Parch. W.O. Roberts. Mr. Roberts gyflwynodd y gwobrwyon i'r plant, a Mrs. Beryl Mai Jones yn ei gynorthwyo. Mr. Roberts hefyd roddodd yr anerchiad i'r plant. Mrs. Jane Humphreys oedd y cyfeilydd.

YR YSGOL FEITHRIN

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Agored yr Ysgol Feithrin nos Fawrth, Hydref 5ed am 8.00 p.m. yn Ysgol Glanmoelyn. Gwerthfawrogwn gefnogaeth pawb sydd â diddordeb yn yr ysgol i'r cyfarfod hwn.

CRIW BYSUS D.M.

Os trowch i'r tudalen canol cewch weld llun staff Mr. D.M. Pritchard. Saif awdur y golofn, sef Mr. R.W. Williams, Rhosbodrual, ar ben y rhes olaf, ar y dde. Saif yr "Hen Êr" yn nesaf ato. Faint o'r lleill ydych chi'n eu hadnabod?



AGOR FFINIAU'R GORFFENNOL

gan Mary Lloyd Williams

Yr oedd y diweddar Mr. Henry Parry (barber) Disgwylfa, Llanrug, a adwaenid o anwylddeb gan bawb fel "Harri Bach" yn gymeriad hynod o gym-eradwy yn yr ardal.

Cafwyd aml i 'seiat' a dadlau brwd yn siop Harri barber. Bu yn athro Ysgol Sul ym Mhont-rhythallt am lawer o flynyddoedd Credaf fod fy nhad wedi rhoi disgrifiad byw a chywir iawn ohono yn yr englynion canlynol. Cyfansoddodd hwy yn 1931 er cof amdano.

ER COF AM HENRY PARRY (BARBER)

Am drin pen yn amgenach — a thwylio
Brithylliaid a'i blufach,
Neu lunio gen yn lanach,
Her i bawb roi Harri Bach.

Ail-luniodd ein glawleni, — a mynych
Gymwynas wnaeth inni;
Gwael enwair gai 'i haileni
O'i law fawr hael i loyw fri.

Un medrus ei ymadrodd — yn ei gell
"Tynnai goes" gwyr anodd:
Ein dadl hir yn glir iawn glodd
Hwn â'i synnwyr a'n swynodd.

Frawd doniol di frad, tyner, — oedd
iraidd

Ei eiriau a'i dymer:
Nid byrbwyll enaid barber
A garai naws geiriau Ner.

Yma nid yw mwy, na'i "dwrn",
Dunos ydyw nos Sadwrn.

Glan Rhyddallt

LLYTHYRAU

Gwelfor,
Rhostryfan.

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae nifer o ddosbarthiadau nos ar gyfer y rhai sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg yn yr ardal erbyn hyn. Dylem ddiolch i'r athrawon ymroddgar am gymeryd at y gwaith pwysig yma.

Yn anffodus 'dyw mynychu dosbarthiadau nos ddim yn ddigon i feistrolï'r iaith, ac yn aml fe gaiff y dysgwyr drafferth i ddechrau sgwrsio'n Gymraeg â'u cyd-bentrefwyr.

Mae'n ddyletswydd arnom ni oll i'w cynorthwyo a'u dwyn i mewn i'r gymdeithas Gymraeg. Un modd effeithiol i gynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl yn y Gymraeg, a dod i adnabod eu cymdogion Cymraeg fyddai i bob mudiad a chymdeithas yn ein pentrefi neilltuo o leiaf un noson ar eu cyfer. Dyma'r amser o'r flwyddyn pryd y bydd rhaglenni'r gaeaf yn

cael eu llunio — felly, beth amdani? Rhewch wahoddiad i ddosbarth o ddysgwyr i'ch plith am noson — gall fod yn noson lawen, noson goffi, gyrfa whist — rhywbeth cyn belled a bo cyfle iddynt sgwrsio yn Gymraeg.

Gallwn i roi benthg llyfrynnau o ganeuon poblogaidd fyddai'n addas i'w cyd-ganu mewn noson lawen, a byddaf yn falch o anfon rhestr o'r dosbarthiadau yn y cylch i chi; neu unrhyw gymorth arall a allaf ei roi.

Mae'r dysgwyr yn dangos parch atom ni ac at ein hiaith, felly ein dyletswydd ninnau yw gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cynorthwyo i ddysgu Cymraeg fel y gallant ymdoddi i'r gymdeithas wledig Cymreig a chyfranogi o gyfoeth ein diwylliant.

Yn gywir,
Dewi Tomos

Trefnydd Rhanbarth Arfon
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

OES RHYWUN YN EI ADNABOD?



Mae hanes diddorol a thrist i'r llun yma a yrrwyd i'r Eco gan Mr. Cledwyn Flynn Hughes, Caernarfon. Derbyniwyd y llun hwn gan Mr. J.E. Roberts ar faes y gad gan gymeriad o'r enw "Siôn Ceunant". Mae Mr. Flynn Hughes yn gobeithio'n fawr i rywun o fro Eco'r Wyddfa allu darganfod Siôn Ceunant yn y llun oherwydd iddo gael ei ladd rhyw ddau ddiwrnod ar ôl iddo roddi y llun yma i'w gyfaill. Os gwyr rhywun — gyrrwch y wybodaeth i'r golygydd.

E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS!

(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL

E& E.M.GREEN

SIOP GRON

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres
Dewis rhagorol
Croeso cartrefol

BETHEL

CLWB Y MAMAU

Cafwyd cynulliad da i gyfarfod cyntaf y tymor nos Fercher 22ain o Fedi. Roedd yn noson hwyliog a diddorol yng nghwmni Miss C.M. Poyner, Siop y Nelson, Caernarfon yn sôn am Goluro a gofalu am y croen. Diolchwyd gan Mrs. Elizabeth Evans, y gweinyddesau oedd Mrs. Margaret Hughes a Mrs. Nan Owen. Enillwyd y raffl — rhodd gan Mrs. Lynwen Morris — gan Mrs. Jean Vize. Penderfynwyd cynnal noson goffi yn y Neuadd nos Fercher Tachwedd 3ydd yr elw at gael anrhegion Nadolig i'r Pensiynwyr.

Yn y cyfarfod nesaf ar Hydref 27ain bydd Mr. Gwynfor Williams swyddog gyda'r Gwasanaeth Ambiwylans, yn rhoi sgwrs ar Gymorth Cyntaf.

YR URDD

Nos Wener nesaf, Hydref 1af am 6.30 fe agorir y tymor newydd. Bydd Dafydd Owen, Trefnydd newydd yr Urdd yn dangos ffilmiau i'r aelodau.

PLAID CYMRU

Nos Iau Hydref 14eg bydd cangen Bethel o Blaid Cymru yn ymweld â changen Llanberis. Fe drefnir noson amrywiol o adloniant a gemau yn Y Ganolfan Llanberis am 7.30.

MERCHED Y WAWR

Yng nghyfarfod mis Hydref y Gangen a gynhelir yn yr Ysgol nos Fercher Hydref 13 bydd Mrs. S. Roberts, Caernarfon yn rhoi sgwrs ar Drefnu Blodau.

CLWB Y RHOS

Fe agorir tymor y gaeaf o Glwb y Rhos yn yr Ysgol am 7.30 nos Lun 11eg. Bydd y cyfarfod dan ofal y Parchedig Eryl Ll. Davies.

DYMUNIADAU DA

Pob lwc i holl blant y pentref sydd wedi dechrau cyfnod newydd yn eu bywyd yn ddiweddar, rhai yn dechrau ar eu swyddi cyntaf a rhai eraill yn dechrau ar gwrs mewn coleg.

LLONGYFARCHION

Llongyfarchiadau i Mr. Cecil Roberts, 3, Glan Llyn ar gael ei benodi'n reolwr ym manc Barclays Y Bermo.

YN GWELLA

Da yw gweld llawer o bobl y pentre sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar yn gwella. Mae Gwyn Antur hefyd yn mynd allan bellach, er yn dal i fod mewn cadair, gobeithio y caiff godi ohoni'n fuan.

CYDYMDEIMLO

Mae'n cydymdeimlad â dau deulu o'r pentref y mis hwn. Bu farw Mr. Williams, Tŷ Newydd, tad yng nghyfraith Mrs. Williams a brawd Tomi Williams. Hefyd bu farw Mr. Gerrard, Bro Rhos yn frawychus o sydyn ac ifanc. Mae'n gadael gwraig a phump o blant.

CHWEDLAU'R FRO

gan JOHN OWEN HUWS

Soniais ychydig am Dylwyth Teg godre'r Wyddfa yn *Eco* mis Medi. Mae llawer mwy o hanesion ar gael amdanynt. Dywedai'r hen chwarelwyr gynt y clywid y Tylwyth yn gweithio ym mherfeddion Chwael Dinorwig yn ystod y nos. Dro arall gwelodd pysgotwr Dylwythyn yn toi tas wair ar wyneb Marchlyn Mawr un diwrnod niwlog. Dywedir hefyd i Marged Fwyn Ferch Ifan eu gweld yn dawnsio ger y Rhyd Ddu cyn symud i fyw i Lanberis.

Dywedir fod Tylwyth Teg godre'r Wyddfa yn fodau hardd iawn. Gwisgent ddillad melfed a chapiau cochion. Eu prif ddiddanwch oedd dawnsio. Gwelid hwy'n gylch llawen ar adegau arbennig o'r flwyddyn, megis Gŵyl Ifan neu Wyl Mihangel. Gofalai bugeiliaid yr Wyddfa rhag mynd yn agos at y dawnsiwr fodd bynnag, rhag cael eu hudo i'r cylch. Un tro, aeth Wil Helfa Fain yn rhy agos at griw o'r Tylwyth a ddawnsiai o gwmpas Maen Du'r Arddu. Y diwedd fu ei hudo i'r cylch. Y noson wedyn daeth ei gyfeillion at y Maen i chwilio amdano a'i weld yn dawnsio fel gwallgofddyn. Yn y bore cawsant ef yn hanner marw gan flinder a chlodwyd ef yn ôl i'r Helfa Fain. Bu yn ei wely am ddyddiau a phan ddaeth ato'i hun, ni fynnai sôn am ei antur. Cafodd ddihangfa gyfyng, oherwydd diflannodd etifedd Llwyn Onn. Betws Garmon am flynyddoedd lawer.

TYLWYTH TEG Y LLYN COCH

Adroddir chwedl arall am Dylwyth Teg yr Wyddfa. Un diwrnod 'roedd ffermwr ifanc o Lanberis wedi mynd â'i geffyl i gael diod o ddŵr o'r Llyn Coch, pan sylwodd ar ferch dlos yn edrych i fyny arno o dan y dŵr. Rhuthrodd i'r dŵr ar ei hôl ond y cwbl a wnaeth oedd ymddangos ychydig lathenni oddi wrtho. Bu yno amryw weithiau wedyn i edrych a ymddangosai'r Dylwythes eto. Un tro 'roedd yn bwyta afal arbennig o flasus a gawsai o berllan cymydog pan ymddangosodd y Dylwythes a gofyn am damaid ohono.

Gwnaeth y ffermwr iddi ddod o'r dŵr i gael yr afal. Pan wnaeth hyn, gafaelodd yntau ynddi. Bloeddiodd y ferch a chododd yr hen ŵr ei thad o'r gwaelodion. Gofynnodd y ffermwr a gâi ei phriodi a chaniatawyd hynny ar yr amod na chyffyrddai hi â haearn na phridd. Bu'r ddau'n byw ynghyd yn hapus am rai blynyddoedd a ganed dau fab a dwy ferch iddynt. 'Roedd y mab hynaf a'i ddisgynyddion yn feddygon galluog. 'Roedd yr ail fab yn grefftwr unigryw a metal. Am y ddwy ferch, dyfeisiodd un y delyn fechan ddegtant a'r llall y droell. Un diwrnod daeth y ffermwr adref gyda choeden fechan a gawsai gan ei gymydog. Aeth ef a'i wraig ati i'w phlannu ac o orffen taflodd y rhoiad olaf o bridd dros ei ysgwydd. Disgynnodd y pridd ar fron ei wraig a rhybuddiodd hithau ei fod wedi torri amod cyntaf eu priodas. Penderfynodd y ffermwr ddychwelyd y goeden i'w gymydog ac aeth gyda'i wraig i ddal eu ceffyl. Yn ei dymer, ceisiodd y gŵr daflu'r ffrwyn dros ben yr anifail. Methu a wnaeth, a tharodd yr enfa haearn ei wraig. Torasai'r ail amod. Ffarweliodd y Dylwythes â'i gŵr yn syth a phlymio'n ôl i'r Llyn Coch.

Daw y Rhifyn nesaf allan Nos Iau/Gwener Hydref 28 ain. At y Gohebwy. Dylai'r deunydd cyhoeddi fod yn llaw'r golygydd erbyn nos Iau, Hydref 21ain neu ynghynt.



Llun trwy garedigrwydd Mrs. Martin Owen

EISTEDDFOD GADEIRIOL CEFNWAUN 1935

ENILLWYD Y CWPAN GAN

GŌR PENYGARRETT

(ARWEINYDD: MR. MARTIN OWEN, LLANBERIS)

CEUNANT

AELOD GWERTH EI GAEL

Bu cyfarfod blynyddol Cymdeithas Rheilffordd Llyn Llanberis yng Ngwesty Fictoria Llanberis, Sadwrn 18 Medi 1976 pan yr etholwyd Ifan Parri, Morwel yn olynydd i'r diweddar Wmffra Roberts fel un o'r ymddir-

iedwyr. Dyma benodiad hapus iawn gan fod Ifan a Wmffra yn gyfeillion agos ers blynyddoedd. Mae Ifan yn bennaeth adran gwaith metal etc. yn Ysgol Gyfun Dyffryn Nantlle ac yn awdur llyfr ar ei faes yn yr iaith Gymraeg. Mae'r *Eco* yn sicr y bydd etholiad Ifan yn gaffaeliad mawr i'r Rheilffordd. Dyma'r math o ddyn dyfeisgar medrus sydd wir ei angen mewn diwydiant Cymreig.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS

NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



CWM -Y-GLO

DYMUNIADAU DA

Yn ogystal â'r rhai a enwyd yn y rhifyn diwethaf, bu Gwyneth Green, Llwyncoed Bach, Dylan Jones, Min-y-don a Gareth Jones, 4, Brynhyfryd yn llwyddiannus yn arholiadau lefel 'O' a 'C.S.E.' Mae Arwel (brawd Gareth) yn dechrau ar gwrs bywydeg môr ym Mhrifysgol Bangor a John R. Chick yn dechrau Cwrs Syrffewr yng Ngholeg Nottingham. Ein dymuniadau gorau iddynt i gyd.

LLONGYFARCHIADAU

i Mr. a Mrs. Dafydd Price, Tan-y-Graig ar enedigaeith mab bychan - Gareth.

AR YMWELIAD

Dychwelodd Miss Ella Morris i Genefa y Swisdir ar ôl bod am ychydig wyliu gyda'i chwaer Mrs. Higgins ym Mron Eryri. Da oedd gennym ei gweld yn edrych mor dda.

MERCHED Y WAWR

Cyfarfu y gangen leol nos Fercher Medi 15ed gyda Mrs. Hannah Jones, Tawel Lan yn y gadair. Cydymdeimlwyd â Mrs. Nancie Jones, Mrs. Verna Jones a Miss Kate Jones (chwaer) ar farwolaeth Mr. Hugh Jones, Meillionen. Llongyfarchwyd Mrs. Nan Rowlands, Bod Afon ar ennill yr ail wobwr am frodwaith yn adran y methedig yn Sioe Gogledd Cymru yng Nghaernarfon, hefyd Mrs. Margaret Williams Nant Forgan a Mrs. Gwyneth Chick ar lwyddiant Delyth a John yn yr arholiad diwethaf. Cafwyd noson ddifyr a hwyliog dros ben yng nghwmni Mrs. Hughes, Bryn Hyfryd, Pentir. Testyn ei sgwrs oedd "Bywyd ar fferm diwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau hon." Diolchwyd yn fawr iddi gan Mrs. Hannah Jones a Mrs. Gwyneth Chick - ac edrychir ymlaen i glywed rhagor o'i hunan-gofiant. Gwesteion y noson oedd Mrs. Watkins a Mrs. Chick. Hwy hefyd roddodd y raffl a enillwyd gan Mrs. Eluned Hughes, Hyfrydle a Miss Olwen Parry Jones, Gwylfa. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 13eg a disgwylir Mrs. Morgan Jones o'r Waunfawr i annerch.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Mrs. Trefor Owen, Glasfryn ar golli ei hunig chwaer yn yr Amerig. Ymfudodd hi a'i brawd o Gymru dros drigain mlynedd yn ôl. Ym Mryn Heli Llanrug yr arferai fyw cyn ymadael â Chymru.

PRIODWYD

Glyn Williams mab Mr. a Mrs. Gwilym Williams, Ddôl Bach Cwm Cwm-y-Glo a Norita Evans merch Mrs. Megan Evans 15, Pandy Road Caernarfon ar 11ed Medi yn Eglwys Crist, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU

Alwyn Williams, Ddôl Bach ar achylsur ei ddywedd iad â Gwen Williams Cae Du Isaf, Llanllyfni.

UNDEB Y MAMAU

Dechreuwyd tymor 1976/77 gyda gwasanaeth yn yr Eglwys o dan

arweiniad y Rheithor. Cymerwyd rhan hefyd gan Mrs. Watkins a Mrs. Orritt. Mrs. Higgins oedd yr organyddes. Wedi'r gwasanaeth mwynhawyd te wedi ei ddarparu yn yr ysgol gan Mrs. Owen, Isfryn a Mrs. Watkins, Dolwen. Mrs. Watkins a lywyddai hefyd yn absenoldeb Mrs. Williams, Y Rheithordy. Yn ystod y cyfarfod rhoddwyd adroddiad o'r Gwasanaeth Canmlwyddiant yn Abaty Westminster gan Mrs. Jones Snowdon Hotel a chrynodeb o'r Rali yn Aberystwyth gan Mrs. Owen, Isfryn. Diolchwyd i'r gwesteion gan y Rheithor.

FFAIR Y CYNHAEAF

Mewn pwyllgor a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Eglwys Sant Gabriel penderfynnwyd bod cynnal Ffair y Cynhaef fel arfer ar Nos Fawrth Hydref 19eg am saith o'r gloch. Bydd y stondinau arferol yn cael eu cynnal a bydd yr elw er budd Eglwys Sant Mihangel.

GWAELEDD

Drwg gennym glywed am waeledd Mr. Alun Wyn Hughes, Nant Peris ond sydd yn hannu o Gwm-y-Glo a dymunwn iddo adferiad buan ac ac fe anfonwn ein cofion at Mr. Moulton sydd yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

DRAENOG YN YMDDIHEURO

Am y tro cyntaf yn fy mywyd rhaid imi ymddiheuro! Ers imi dynnu sylw at y busnesau sy'n dangos arwyddion Cymraeg, yr wyf wedi sylwi a chlywed am lu o rai eraill. Byddaf yn eu henwi maes o law.

STORFA

**Mace
S.&E.
Jones
Llanrug**

FFÔN: Caernarfon 2790

**BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD**



S. JONES

**CYFANWERTHWY
FFRWYTHAU
(WHOLESALE
FRUITERER)**

**Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790**

O SENEDDAU'R FRO

Gair pwysig at bob un ohonoch. Ydach chi wedi llenwi a dychwelyd y ffurflen gofrestru etholwyr a gawsoch chi yn ddiweddar? Os na - wel gwnewch hynny ar unwaith neu fydd ganddoch chi ddim pleidlais os daw etholiad. Os na chawsoch chi ffurflen, neu os ydych chi choli, neu'r ci wedi'i chnoi, - wel anfonwch ar unwaith i Swyddfa Cyngor Arfon am ffurflen arall. O ia, fe ddylwn eich rhybuddio hefyd ei bod hi'n ofynnol drwy gyfraith i chwi anfon y ffurflen gofrestru yn ôl, a gellir cymryd camrau cyfreithiol yn eich erbyn os gwrthodwch wneud hynny.

Felly, llenwch hi heno, a phostiwch hi'r peth cynta' bore fory.

Bu holl gynghorwyr Llanddeiniolen (Cymdeithas Arfon a'r Sir) yn cydgyfarfod â'r Aelod Seneddol, Mr. Dafydd Wigley, a chafwyd noson eithriadol o ddiddorol ac addysgiadol. Bu trafodaeth ar amryw o broblemau sy'n gysylltiedig â'r plwyf, a siawns ar ôl cydgyfarfyddiad o bob lefel o lywodraeth na ellir datrys rhai ohonynt.

Mae'n debyg i amryw ohonoch gael trafferthion hefo'ch dŵr (dŵr i yfed felly) yn ystod yr haf sych a gawsom. Tydi'n rhyfedd, - digon o ddŵr o'n cwmplas, ond i ble yn y byd mawr mae o'n mynd d'udwch?

'Does dim angen i chi boeni'n ormodol am fod yn wastraffus chwaith. Tydi'r Bwrdd Dŵr yn poeni fawr: mi fuo'r dŵr yn byrlymu allan o'r ffordd mewn dau le ym Methel am bron i fis, a'r

strydoedd yn llyfio, - ond 'doedd 'na neb yn poeni am y peth, ac 'roedd y plant wrth eu bodd yn padlo ynddo yn ystod y tywydd poeth.

Bydd amryw o lwybrau cyhoeddus a ffyrdd lwybrau ym mhlwyf Llanddeiniolen yn cael eu tacluso o dan nawdd y cynllun creu gwaith yn ystod yr wythnosau nesa' 'ma. Ail agorir rhai o ffyrdd lwybrau sydd wedi cau, ond mater i berchnogion y tir fydd eu cadw ar agor wedyn, a hwy fydd yn gyfrifol hefyd am agor y ffosydd sy'n achosi llifogydd ar y llwybrau.


Mae llygedyn o obaith fod rhai o'r tyllau chwarel peryglus sy'n hagru ardal Dinorwig i gael eu llenwi o'r diwedd. Mae Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen wedi bod yn crefu am i hyn gael ei wneud ers blyneddau.



Rhedwyr chwim Brynrefail yn y Gemau Giamocs.

**AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO**

Eric Morris



**Arvon Coaches
LLANRUG**

FFÔN WAUNFAWR 254

Y mae gan Mr. Eric Morris drip i Lundain dros Wythnos Diolchgarwch. Fe gyst hyn £24 sy'n cynnwys Gwesty gyda gwely a brecwast yn Paddington am bedair noson a'r costau bws i Lundain ac yn ôl. Ffoniwch Waunfawr 254 am fanylion.

DEINIOLLEN

CYWIRO

Bydd trigolion "Llanbabo" yn gwybod mai ar Gorffennaf 31ain 1926 ac nid 1976 fel y'i printiwyd yn rhifyn diwethaf o'r *Eco*, y mabwysiadwyd yr enw Deiniolllen yn lle Ebenezer ar y pentref!!

Byddant yn gwybod hefyd mai Medwyn ac nid Maldwyn yw enw mab Mr. a Mrs. R.H. Williams, 5, Stryd Gwledfa, oedd yn cael ei longyfarch am ei lwyddiant addysgol yn yr un rhifyn. Ymddiheurwn.

CYNGOR EGLWYSI

Mewn cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fercher, Medi 15fed 1976, cytunwyd i dderbyn ymddiswyddiad Mr. John Williams (Disgwylyfa) fel Ysgrifennydd y Cyngor. Diolchwyd i Mr. Williams am ei wasanaeth trylwyr dros y saith mlynedd diwethaf gan Mr. Donald Jones (Ebenezer), Llywydd y Cyngor, a dymunwyd yn dda i Miss Elizabeth E. Griffith (Cefnywaun) ar gymryd trosodd waith Mr. Williams.

CLWB YR HENOED

Cynhaliwyd ail gyfarfod y Clwb am eleni, p'nawn ddydd Mawrth Medi 13eg, y gwsteion te oedd Mrs. D. Jones; Mrs. K. Jones a Mrs. M.L. Rowlands oll o Tai Cynfi.

Ar ran y rhai oedd bresennol dymunodd y Llywydd amser hapus iawn i Mrs. L. Williams, 10 Rhydfadog a Mrs. J. Williams, 10, Tai'r Faenol, aelodau o'r Clwb oedd wedi eu dewis i dreulio wythnos o wyliau yn y Rhyl ar drael Pwyllgor Lles Henoed Sir Gaernarfon.

BEDYDDIO YN YR AWYR AGORED

Nos Sadwrn, Medi 18fed, 1976 bedyddiwyd Carol Ann Williams 10 Tai Marian, aelod o Eglwys Libanus, Clwt-y-Bont, gan ei gweinidog y Parch. Ifor Ll. Williams. Hwn oedd y tro cyntaf ers sefydlu Eglwys Libanus ym 1877 i un o'r aelodau gael ei bedyddio yn yr awyr agored.

DOSBARTH "W.E.A."

Agorwyd cyfres o ddosbarthiadau gan Mr. Emyr Price, Bethel yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Lun Medi 20fed. Daeth nifer dda o selogion y Dosbarth Nos ynghyd â wynebau newydd i'r ddarlith gyntaf, ac mae Mr. M.A. Thomas, Maes Gwylfa (Ysgrifennydd) yn estyn croeso cynnes i unrhyw un â diddordeb i lenwi'r ychydig seddau gweigion sy'n aros.

Bydd Mr. Price yn darlithio ar "Ddeg Radical Cymreig" gan gynnwys enwogion megis Robert Owen, Y Drenewydd, Thomas Gee ac Aneurin Bevan.

TABERNACL

Nos Sul, Medi 20fed bedyddiwyd mab a merch yn yr addoldy uchod gan y Parch. George Brewer M.A., B.D., Gweinidog. Y Ferch oedd Louise Rebecca, plentyn Brian a Magwen O'Shaughnessy, Caernarfon a'r mab oedd Kelvin, plentyn Glyn ac Olive Allen, Stryd Newydd, Deiniolllen.

MERCHED Y WAWR

Roedd y gangen yn flwydd oed fis Medi diwethaf a hyfrydwch yw dweud iddi fod yn flwyddyn lwyddiannus, a bod y gangen yn parhau i gynyddu mewn aelodaeth. Bydd y gangen yn cyfarfod ar y drydedd nos Lun o'r mis a chynhaliwyd cyfarfod cynta'r Sesiwn nos Lun yr 20fed o Fedi, pryd y cafwyd gwledd wrth wrando ar Miss Mat Pritchard, B.A., Caernarfon yn traethu ar hanes llong-ddrylliad y 'Royal Charter'. Mynegwyd diolch cynnes iddi gan Mrs. Dilys Hughes, Ty'n y Weirglodd.

Gofid oedd derbyn, oherwydd pwysau gwaith, ymddiswyddiad yr Ysgrifennydd Miss Nancy Owen, 4 Rhydfadog. Iddi hi yn bennaf y mae'r diolch am gychwyn Cangen yn Neiniolllen, a diolchwyd iddi gan y Llywydd Mrs. P. Roberts, am ei holl waith yn ystod y cychwyn ac yn ei swydd fel Ysgrifennydd.

Rhoddwyd y lluniaeth gan aelodau'r Pwyllgor a'r raffl gan Miss Nancy Owen. Yr enillydd oedd Mrs. Helen Roberts, Chester House.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Lun Medi 13 croesawodd y llywydd Mrs. M.A. Thomas yr oll o'r aelodau yn ôl ar ôl gwyliau haf. Cyfeiriodd a chydymdeimlodd â rhai o'r aelodau a fu yn wael, yn enwedig felly, Mrs. Hughes Rhiwen a Mrs. Smalley. Llongyfarchodd Mrs. Eirlys Williams, nain i'r babi a'r fam ddelfaf mewn cystadleuaeth ddiweddar yng ngwersyll Pontins. Yna croesawodd yn gynnes iawn Mr a Mrs Richard Jones, Abergele. Da eu gweld yn edrych cystal. Cafwyd noson eithriadol o ddifyr yn gwrandao ar "Hen Atgofion" gan Mr. Jones. Diolchwyd iddo gan Mrs Nansi Rowland, Mrs Marian Williams a Mrs E. Williams. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Thomas, Tai'r Faenol a enillodd y raffl.

Oherwydd fod yr Adran Addysg yn gorfod cynilo, ni ellir cael Dosbarth Crosio am eleni.

PRIODAS

Dydd Sadwrn Medi 25ain yn Eglwys Disgwylyfa M.C. Deiniolllen priodwyd Linda Wyn Williams merch Mr. a Mrs. Eifion Wyn Williams, Y Becws, Deiniolllen a Michael Williams mab Mr. a Mrs. George Arden Williams, Bryn Arthur, Caergwrle ger Wrecsam. Gweinyddwyd yn y gwasanaeth gan y Paredigion Stanley H. Williams (Cerarea) a Gwilym Ceiriog Evans (Caergybi) a'r organyddes oedd Mrs. A. Rees, Ffordd Deiniol, Deiniolllen.

TRYSOR YN NEINIOLLEN

Cynhaliwyd Helfa Drysor flynyddol Clwb Snwcer nos Sadwrn diwethaf sef Medi 25ed. Dechreuodd y chwila am 4.30 yn Neiniolllen a gorffennodd yn "Y Goron" ym Mhwllheli. Yr enillwyr oedd Mr. Meirion Jones a'i deulu, Minafon, Clwt-y-Bont a'i wobwr oedd cwpan ardderchog.

PLAID CYMRU

Gweler y 'Dyddiadur'



Chafodd y rhain ddim cyfle i edrych at y dyn camera — 'roeddynt mor brysur yn plygu'r *Eco*. Mae hwyl a sgwrs i'w gael yn ystod yr orig yma. Beth am fwy o gynorthwyyr — dyna'ch cyfle i helpu'r *Eco*.

PENISARWAUN

POBL IFANC Y PENTREF

Estynwn ein llongyfarchiadau i ieuencid y pentref am wneud mor dda yn yr ysgol. Hefyd ein dymuniadau da iddynt am y dyfodol.

Doris Adlam

Erbyn hyn mae Doris wedi gadael y chweched dosbarth ac mae hi mewn coleg yn Lerpwl yn dilyn cwrs Gwyddor Tŷ.

Irfon Hughes

Aeth Irfon i Goleg Technegol Bangor â'i fryd ar fod yn fecanic.

Bronwen Hughes, Anwen Jones, Marian Jones, Olaf Cai Larsen a Louise Kilsby. Aeth y pump hyn i'r chweched dosbarth i ddilyn wahanol gyrsiau lefel 'A'. Mae'r *Eco* yn credu bod hyn yn record dda i bentref bach fel Penisarwaun. Dechreuodd tua naw o blant y pentref yn Ysgol Brynrefail ym Medi. Cofiwch weithio'n galed yno blant.

GWELLHAD BUAN:

i Mrs. Gwyneth Jones, I, Bryn Tirion sydd yn Ysbyty Mon ac Arfon. Ei thad Mr. Griffith O. Williams Cae Hywel sydd newydd ddychwelyd o'r Ysbyty. Mrs. Pat Lloyd Jones sydd gartref wedi cael triniaeth llaw feddygol. Mr. Hughie Ellis Roberts Vine Cottage sydd gartref o Ysbyty Dewi Sant. Mr. Hugh Davies Llys y Gwynt sydd newydd fynd i Ysbyty Abergele.

WEDI GWELLA

Braf oedd gweld Mrs. Jennie May Jones 4, Llys y Gwynt, wedi gwella ac yn medru mynd o gwmpas y pentref.

PARTI'R HEULWEN

Bydd Parti'r Heulwen yn cynnal gwasanaeth yng Nghapel Saron Llanwnda Nos Sul, Hydref 10fed.

PRIODAS RUDDDEM

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Humphrey Williams, Llys Iolen ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem, Medi 1af eleni. Erbyn hyn mae Mr. a Mrs. Williams — a fu yn hynod o weithgar yn y pentref — wedi symud i Fethel i fyw. Ond byddant yn dal yn selog i weithgareddau Penisarwaun. Mae darllenwyr yr *Eco* yn dymuno'n dda iddynt yn eu cartref newydd.

GENI

Croeso i'n plith Osian Dafydd, mab bychan Mr. a Mrs. Dafydd Evans.

CRONFA MRS. R.H. OWEN I'R YSGOL

Bydd y Gronfa yn cau ar y 29ain o Hydref. Os ydych am gyfrannu tuag at y Gronfa hon sydd wedi ei sefydlu i brynu offer i'r ysgol lle y bu Mrs. R.H. Owen yn gwasanaethu am flynyddoedd, gellwch anfon eich cyfraniad at Mr. L. Jones, y Prifathro neu at un o Reolwyr yr ysgol.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFTWYR LLEOL

Gwasg Gwynedd

GWAITH DIDDOROL

ym myd
cyhoeddi ac argraffu

Paratoi gwaith celf ar gyfer
argraffu litho.

Gwneud a thrin negiau.

Paratoi platiau.

Gellir rhoi hyfforddiant os
bydd angen.

Ceisiadau trwy lythyr i:
Gwasg Gwynedd, Nant Peris.

CWESTIWN
Be' di'r ffordd
hawsa' o symud llwyth
o Lanber i Landudno,
o Deiniolen i Dundee
ac o Fethel i Fanceinion?

ATEB

H.F. OWEN

YMGYMERWR CLUDIANT - HAULAGE CONTRACTOR

Bethel

Ffôn: Port Dinorwig 487
Fe gariwn
rywbeth i rywle
(bront!)

"Choelia'i fawr - 'freemasons'
Cymraeg ydi'r diawlaid' "
meddai'r llall yn ôl, yn swta.

Rhaid cofnodi i'r Ysgrifennydd
chwerthin wrtho'i hun yn ddi-
baid nes cyrraedd Cerrigydrudion
bron, o glywed disgrifiad cam-
arweiniol yr hen frawd.

Ond gan R.E. Jones, cyn ysgol-
feistr Llanberis, y cafwyd y
'disgrifiad' derbyniol a swyddogol
- mewn englyn fel y gellid
disgwyl -

Am paned a chwmpeni, - llawenydd

Callineb a fflwbri,

A hwyl braf, mi fynnaf i

Ryw awr yng Nghlwb Eryri.

OLION HEN OLWYNION

gan R.W. Rhosbodrual



YR HEN ÊL

Roedd yr Hen Êl yn docynnwr adnabyddus ar fysus D.M.
yn y tri degau. Gallai drin teithwyr, gyrrwyr, plismon neu
unrhyw achwynydd hefo olew hiwmor.

Bu gwrthdrawiad rhwng ei fws
ef a char preifat ar ffordd gul. Ni
wnaed llawer o ddifrod, wrth
lwc, ond mynnai Elis gael
drecsiwn y diffynnydd. "What's
your name?" holodd. "I'm Mr.
Stout" atebodd. "Don't worry",
ebe Elis, "I'm Mr. Êl," a chw-
ddodd yn ffri.

EI HIWMOR

Byddai D.M. Pritchard yn
mwynhau hiwmor yr Hen Êl, ac
yn hoff o dynnu'i goes. Pan fu
Elis ar drip yn Ninas Dinlle, un
pnawn Sul aeth i drochi ei draed,
a daeth D.M. i glywed am hyn.
Mynnai y byddent yn newid enw
y bae i "Black Sea" wedi'r trochi
traed.

'Roedd gan Elis feddwl y byd
o'i fam, a daliai ar bob cyfle i
alw yn y tŷ, yn y Cwm, gyda
rhywbeth bach iddi yn anrheg
neu ddanteithfwd. Cafodd
ddau neu dri torgoch ffres gan
rhywun tua Llanbêr, a phiciodd
i'r tŷ i'w rhoi i'w fam am ffrei.
Galwodd yno ar y trip nesaf o'r
dref a daeth i'r bws gyda dau
dorgoch blasus wedi eu ffrio ar
bapur, un i'r dreifar a'r llall

iddo'i hun. Bwytaf y 'sgodyn
ynghanol y teithwyr ar y bws.
"Sgram gin mam", meddai gyda
gwên slei. Câl bardwn gan bawb
beth bynnag fyddai ei drosedd.
Roedd ei wên mor ddeniadol a'i
winc mor slei, fel na fedrai neb
lai na maddau iddo.

ANGHOFUS


Arferai gario negesau i bobl o'r
dref yn enwedig papurau
newydd wythnosol, ond yn aml
anghofiai Elis eu danfon. Pe
newidid bws yn Llanrug âi'r
papurau i'r garej ac ni byddai
sôn amdanynt dros dro. Pan
gyhuddid ef o esgeuluso ei neges,
gallai trwy winc, nod, gwên slei a
rhyw sylw ffraeth, ennill madd-
euant unrhyw un.

Cyn ymuno â'r bysus roedd
Elis yn golwr poblogaidd tîm
peldroed Llanrug yng Nghae
Cefn Llwyd a llawer o hwyl a
geid wrth wyllo campau Rhen Êl
yn y gôl. Roedd yn ffefryn gan
lawer ac yn barod ei gymwynas i
unrhyw un a âi ar ei alw.

I Barhau.
R.W. Rhosbodrual

CLWB ERYRI YN 21 OED

gan Rol Williams



Er bod enw'r Clwb yn awgrymu mynydd-dir a gerwinder,
rhaid cyfaddef mai ar stepiau concrid yn Pendist,
Caernarfon yn ystod un awr ginio ym mis Mawrth 1955 y
ganwyd Clwb Eryri.

Arferwn weithio gyda chyfaill o
Fethesda, ac ef a soniai beunydd
am bleserau Clwb y Pentan yn
ardal yr 'Hawgets'. Sylweddolwn
innau fod defnydd cymdeithas
gyffelyb yn ardal Llanberis, a
phwy a welais i diwrnod hwnnw
yn cerdded yn dalog ger y Pendist,
ond y diweddar Mr. Tom Owen,
Llanberis.

Wedi amlinellu'r syniad,
canfyddais yn sydyn fod yr hen
gyfaill mor eiddgar â minnau -
"Trefna gyfarfod cyhoeddus yn
Ysgol Llanrug" meddai, ac felly y
bu. Daeth criw go dda ynghyd, yn
ddynion a merched, ond pender-
fynwyd mai 'Clwb Trafod' i
ddynion oedd Clwb Eryri i fod -
(roedd y ddeddf bresennol
ynghlŷn â chydraddoldeb i ferched
ar y gorwel pell pell bryd hynny).

Yn ddigon naturiol, M. Tom
Owen oedd y llywydd cyntaf, ac
yn gam neu'n gymwys dechreuais
innau ar y gwaith pleserus o fod
yn ysgrifennydd y Clwb ym mis
Hydref 1955.

CYFYNGU AELODAETH

Er mwyn hyrwyddo trafod-
aethau bwysig, rhaid oedd
cyfyngu'r aelodaeth i ddeg ar
hugain o aelodau, ac erys y rheol
o hyd.

Yn ystod 1966, cytunwyd i
ganiatau aelodau o blwyf
Waunfawr ddod at aelodau o
blwyfi Llanberis, Llanrug a
Llanddeiniolen. Gwahoddwyd y
Dr. John Gwilym Jones i fod yn
Wr Gwadd y cinio Gŵyl Ddewi
blynyddol unwaith, ac fe fwyn-
haodd ei hun gymaint nes i'r
diweddar Dafydd Parry

sylweddoli y carai ddod yn aelod,
ond nid oedd y Dr. John Gwilym
Jones yn byw yn un o'r pedwar
plwyf - 'doedd dim amdani felly
ond ei wneud yn Aelod
Anrhydeddus, ac felly y bu, ac
mae'n dal i ddod yn gyson atom
ar nos Wener cyntaf o bob mis yn
y gaeaf i'r Erw Fair. Ond o bosibl
yr aelod mwyaf brwdfrydig yw
Richard Jones - cyn ysgol-feistr
Deiniolen sy'n dod yn rheolaidd i
gadw'r cysylltiad â'r hen fro bob
cam o Abergele yn fisol. Ac mae
presenoldeb Richard fel ffisg i
bawb yn nhrymder y gaeaf!

CYMYSGEDD AELODAETH

Mae cymysgedd o'r 'academaidd
rai' a'r 'werin gyffredin ffraeth'
wedi bod yn un o hanfodion Clwb
Eryri, ac heb os mae'r naill wedi
dysgu oddi wrth y llall. Yn
bersonol cefais yr un blas ar
anerchiadau pedwar gŵr - sydd
mae'n chwith meddwl wedi mynd
o'n plith erbyn hyn - David
Roberts (Dafydd Helfa), R.H.
Owen, Dafydd Parry ac O.E.
(Nowi) Jones ac a gefais ar
anerchiadau y gwŷr 'academaidd'.
Yn ffodus ni chafwyd yr un
anerchiad 'trwm', ac yn sicr ni fu'r
trafodaethau erioed yn dilyn yn
ddi-gic - fe fu tynnu coes, wrth
reswm, a chofiaf y diweddar
Barch. J.P. Davies yn dweud
unwaith "Y peth 'rydwi'n hoffi
yng Nghlwb Eryri ydi'r tynnu
coes iachus sydd rhwng yr aelodau
- heb fod yn faleisus, a neb yn
digio neb ar y diwedd."

ELWA O FOD YN AELODAU

A bod yn hollol ddiffuant, rhaid
i mi gyfaddef fy mod i yn
bersonol - a chan mai dyna

deimlad amryw arall - wedi
elwa'n arw o fod yn aelod yng
Nghlwb Eryri. Mae'r tymhorau
wedi bod fel un "Ysgol Nos" tros
y blynyddoedd, ac nid oes raid
ond edrych trwy'r cofnodion i
sylweddoli cynnwys amrywiol rai
o'r anerchiadau:

"Y Ficer Pritchard," gan R.E.
Jones; "Barddoniaeth T.H. Parry
Williams" gan y Dr. John Gwilym
Jones; "Y Llenor Cyntaf" gan
Parch. J. Alwyn Parry; "Michael
Foraday" gan Richard Jones;
"Hiwmor y Chwarelwr" gan
Dafydd Parry; "Y Farchnad
Gyffredin" gan O.E. Jones;
"Datblygiad y Banciau" gan
Richard Parry; "Yr Ysgyfaint"
gan Dr. Dan Hughes; "Hanes John
Evans y Waunfawr yn y 'Merica"
gan W. Vaughan Jones.

Ar ben yr agwedd ddiwylliannol
ni ddylid anwybyddu'r ffaith fod
Clwb trafodaeth fel Clwb Eryri
wedi bod, heb os, yn fodd i ddod
ag unigolion o'r gwahanol ard-
oedd at ei gilydd - unigolion â
diddordeb o hyd yn "y pethe".

TRIPIAU BLYNYDDOL

Mae'r tripiâu blynyddol wedi
bod yn fendithiol hefyd -
ymweld â mannau hanesyddol a
chymdeithasol ym mhob rhan o
ogledd Cymru bron. Cofiaf yn dda
amdanom yn un criw ar y palmant
yn Llanberis un Sadwrn yn
disgwyl y bws fynd i drampio
erwau Dyffryn Clwyd.

"Pwy 'di rhein, Robin?"
gofynnodd un o'r pentrefwyr
wrth y llall wrth basio heibio.
"Petha'r Clwb Eryri 'na 'di rhain."
"Clwb be? Be' ydio felly - clwb
lush?"

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



iddo wneud yn siwr ei anfon o ag
"Air Mail" i mi, rydwi wedi anfon
arian i dalu'r post, ac hyd yma heb
gael rhifyn Mehefin na Gorffennaf.

Mae'n werth ei gael, ond dim mor
flasus pan mae'n 3 mis oed!

Dymuniadau gorau i bawb sy'n
gyfrifol am y papur — Hwyl fawr,
i chwithau chofion gorau,

Elisabeth Lewis,
(gynt o Bryn Sardis, Dinorwig)

Llythyr a cherdd o ben draw'r byd y tro hwn a chan un o
rched bro *Eco'r Wyddfa*, sef Mrs. Elisabeth Lewis, gynt o
yn Sardis, Dinorwig.

Rydwi'n byw mewn breuddwyd
byd ar ôl y daith rownd y byd y
s diwetha', ac fe erys sawl atgo'
elys am byth.

CYFARFOD CYD-GYMRY

Un o binaclau'r daith oedd cael
cyfarfod â chyd-Gymry yn
nasoedd Hong Kong, Melbourne
dney ac Auckland, Seland
wydd, a phleser mawr i mi yn
turiol oedd cyfarfod â rhai oedd
di ymfudo o'r ardal hon i bell-
oedd daear.

Fel y profir yn y golofn, fûm i
im yn diogi ar y daith, gan i mi
cyhoedduswydd i *Eco'r
yddfa*, a chwilio am ddeunydd
"Lannerch".

Diolch o galon Elisabeth am
eb yr apêl. Ia, noson fyth-
fiadwy oedd y noson honno yn
dney yntê, a dagrau llawenydd
gymysg â dagrau hiraeth.
afonwch bwt eto Elisabeth, a
ry'n siwr fod eraill ymhlith
mry Sydney sy'n caru llunio
rdd weithiau.

ECO'R WYDDFA YN AWSTRALIA

Yfryd yw sylweddoli fod eco'r
Wyddfa Fawr i'w glywed yn
cyn belled ag Awstralia yntê!

hoddaf restr o Gymry eraill â
sylltiad â'r fro hon y cyfarfum
wy ar y daith. Pob un ohonynt
anfon eu cofion cynnes at eu
uoedd a'u ffrindiau, — a phob
ohonynt yn cydnabod fod yna
yn go lew o hiraeth am yr hen
d yn eu calonnau ar brydiau.

g Kong, Mr. Vernon Roberts
der i'r Cynghorydd O.G.
erts Y Felinheli. Mae Mr.
erts yn wr busnes llwydd-
us yn Hong Kong, a chawsom
ld bythgofiadwy ganddo yn ei
s o gartre.

lyn Hughes — a aned yn
ents House, Deiniolen.

Gwenifer — o Bontnewydd,
ydd ddychwelyd o brifwyl
teifi — wedi gwisgo mewn
g draddodiadol Gymreig i'n
sawu.



SIOC

wyd i MANWEB am amcan-
osod TAIR lamp yn un o
edau'r fro. Cafodd y clerc y
aeth mewn TAIR amlen wahanol
n diwrnod. Gwnaethpwyd y
Derbyniwyd TAIR "bil"
TAIR amlen wahanol. Talwyd
a chafwyd TAIR derbynneb
ewn TAIR gwahanol amlen.
h chi wedi gwneud y'ch syms?
mlen a 9 stamp am un job!
trydan yn ddrud deudwch!

Mari Tŷ'r Ysgol — Mari a aned ac
a fagwyd yn un o gartrefi enwoca
Cymru — sef Tŷ'r Ysgol Rhyd
Ddu.

Sydney: Elisabeth a Harry Lewis
Dinorwig

Megan Rees o Lanberis —
perthynas agos i'r golygydd fel
'rwy'n deall.

Tom Roberts — (Twm Tŷ'n
'Rardd, Llanrug) yno ers hanner
can mlynedd — ei chwaer Bet yn
byw yn Brynffynnon.

Enid Howard — un o ffrindiau
pennaf Mat Pritchard.

Melbourne: Mrs. Roberts —
modryb Gerallt Lloyd Owen,
Gwasg Gwynedd — chwaer i'w
dad.

Seland Newydd : Treulio pryn-
hawn yng nghwmni Bob Cae
Dicwm, Penisarwaun. Croeso
cynnes ar ei aelwyd. Mynd i'r ardd
i dynnu orennau oddi ar y coed i
mi; a swyddogion y 'customs' yn
Fiji yn hawlio'r cyfan cyn i mi
gael eu blasu!

GAIR PERSONOL

I gloi — gair personol. Wedi taith
fythgofiadwy, a chael cyfle i weld
llawer o ryfeddodau yr hen fyd
'ma, — teimlad o ryddhad oedd
clywed gwich olwynion y jumbo
yn cusanu tarmac maes awyr
Manceinion, a hyfryd yw cael
eistedd yn nhawelwch fy ystafell
yma yng Nghrud-yr-Awen ac
edrych yn ôl dros y cyfan.

Ia, rhywbeth i edrych yn ôl arno
yw gwyliau bob amser yntê — nid
i edrych ymlaen ato.

Cofiwch anfon eich cerddi, — os
ydynt yn dod o Awstralia, —
siawns na ddônt o dalgylch yr *Eco*
ynte! A diolch unwaith eto
Elisabeth am y llythyr a'r gân
ddiddorol.

Hwyl
Selwyn

86, Kirby St.,
Rydalmere,
N.S.W. 2116.
Australia.

Annwyl Selwyn,
Gobeithio i chwi gael taith hapus
rownd ail hanner y byd ac yn ôl
adra.

Mae pawb yn Sydney yn dal i sôn
am y noson hapus a gawsom hefo'n
gilydd, a phawb wedi mwynhau eu
hunain.

Wel fel yr addewais dyma amgau
pwt o gân i *Eco'r Wyddfa*.

Gyda llaw, pan welwch y sawl sy'n
gofalu am bostio'r papur, gofynnwch

Rhyw noson fythgofiadwy

Oedd honno gawsom ni

Ar Awst deunawfed, saith deg chwech
Yn Eglwys Gymraeg Sydney.

Y nos Sul cynt cyhoeddwyd
Fod Cymry'n dod am dro,
Ni wyddem yn Awstralia
Sawl un, nag o ba fro.

Wel dyna bobol lwcus
Ar wibdaith gylch y byd,
Am bron i fis o amser
A'r daith mewn jet i gyd.

Ymgynnull yn y festri
Am saith o'r gloch yn llon,
I ddisgwyl yr anwyliaid
O'r henwlad dros y don.

Aeth gwŷr i'w cludo o'r "Menzies"
Tra'r merched yn llenwi'r bwrdd
A rhyfedd y llawenydd
A Chymry dwy wlad yn cwrdd.

Adgofion melyn gawsom
Wrth glywed am 'rhen wlad,
A chwrdd â rhai adnabu
Rhyw ffrind neu fam neu dad.

Bu gwledda mawr am dipyn —
Bara menyn da, a the,
Teisennau ddirifedi
A'r "Welsh Cakes" onide?

Ar ôl y gwledda cyson
A chlirio'r bwrdd o'r llawr,
Eisteddodd pawb i ganu
Emynau, fel côr mawr.

Gwyn n Jones Tregarth yn chwarae
Hoff donau Cymru Wen
A Selwyn Griffith, Bethel
Yn canu nerth 'i ben.

Ewch â'n cyfarchion atynt
I Arfon dros y dŵr
A brysiwch 'nôl i'n gweled
Bydd croeso mawr reit siwr.

Mwynhad o'r mwyaf gawsom
Cyfarfod criw mor llon
Gobeithio i chwithau hefyd
Fwynhau y noson hon.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG


Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

Croesair Rhif 7



ENW _____

CYFEIRIAD _____

AR DRAWS

1. Pen ucha' neu ben isa'r ddaear (5)
5. Gwaith (5)
8. Dechrau tyfu (5)
9. Gair drwg am rhywun (5)
10. Diddorol (5)
11. Heol (3)
12. Nodyn ychwanegol! (2)
13. O achos (7)
17. Diwrnod (3)
18. Hylif i ysgrifennu (3)
20. Un sy'n credu mewn un dim tri (7)
24. Dyn o G'narfon (2)
25. Etifedd (3)
26. Ethol (5)
27. Pren grawn duon (5)
28. Defnydd caled o anifail mawr (5)
29. Mae e'n ymaelodi (5)
30. Llestr (5)
31. Bodlon (5)

I LAWR

1. Llyfryn bychan (7)
2. Gofalu am (8)
3. Sboncio (6)
4. Esgeulus (6)
5. Gwalltgof, dan ddylanwad y lleuad (6)
6. Roedd hwn yn hogyn bach swil! (5)
14. Papur... (3)
15. Mesur o dir (3)
16. Trefi cadeiriol (8)
19. Golwg fel hyn sy ar dramp (7)
21. Gonest (6)
22. Talentog (6)
23. Brodor o'r Undeb Sofietaidd (6)
24. Codwm (5)

ATEBION I RHIF 6

AR DRAWS: 1. Pysgoty; 5. Colled; 8. Brwyn; 9. Oherwydd; 10. Llygadrythu; 12. Oer; 13. Meilyr; 14. Gorwel; 16. Nef; 17. Condemnio; 20. Amddifad; 21. Asbri; 23. Selio; 24. Noddedig.
I LAWR: 1. Pabell; 2. Siw; 3. Ofnadwy; 4. Yfory; 5. Credu; 6. Llawforwyn; 7. Diddorol; 11. Gwirfoddol; 13. Mantais; 15. Ochenaid; 17. Cofio; 18. Nodyn; 19. Oriog; 22. Bod.

Enillydd croesair rhif 6:

Goronwy Lewis,
13, Stryd Ceunant,
Llanberis

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel un llythyren:

ch; dd; ff; ng; ll; ph; rh; th.

Bydd gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law.

Dyddiad cau: Hydref 23

Anfoner y cynigion i:

Myrddin Owen,
32, Stryd Fawr,
Llanberis.

BERT PRITCHARD JONES

Enillodd wobr o bunt am roi slogan o dan lun yr eliffant. Y mae Mr. Jones yn garedig iawn wedi dychwelyd y wobr i *Eco'r Wyddfa*. Diolch yn fawr iddo.

COLLED AR ÔL COLLED

Bu farw Mr. Hugh Pritchard, Stryd Turner ddiwedd Gorffennaf wedi gwaeldd hir. Ni chlywyd mohono'n cwyno erioed, a 'roedd ei gyfarchiad ar y stryd bob amser yn llawen. Cydymdeimlir â Mrs. Pritchard, ei blant a'i deulu oll yn eu hiraeth. Ddechrau Medi, bu farw un o gymeriadau anwyfaf ein pentref Mrs. Mem Thomas neu "Anti Mem" fel yr adwaenid hi yn yn 75 oed. Un o ffyddloniaid Eglwys Preswylfa oedd hi, a'i charedigrwydd yn ddihareb yn y cylch. Cydymdeimlwn â'i phriod Mr. Huxley Thomas; Elgar, ei mab; ei chwaer Mrs. Pritchard a'r teulu oll yn eu colled. Brawychwyd y pentref ar y 6ed o Fedi pan glywyd y newydd drwg fod Mrs. Ceridwen Owen, Fictoria Fila, wedi ei lladd mewn damwain fodurol erchyll. Un o golofnau i achos yng Nghapel Coch oedd hi. Cymeriad llawen a rhyw urddas bonheddig o'i chwmpas ydoedd. Cydymdeimlwn â'i phriod, Mr. Hugh Owen; Trefor, ei mab; a'i mam, Mrs. Hughes a'r teulu oll yng nghanol eu galar annisgwyl.

DIOLCH

Dymuna Mrs. Joyce Jones, 27, Dôl Elidir ddiolch yn fawr i feddygon a gweinyddesau ysbyty Dewi Sant a Môn ac Arfon am eu gofal a'u sylw tra bu yno, hefyd i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd mawr. Diolch i bawb.

PRIODI

Priododd Miss Judith Ellis Jones, Compton House a Mr. Martin Hibbert o Gaernarfon yn Eglwys Gorffwysfa ar Sadwrn 11 Medi. Cynhaliwyd y wledd yng Ngwesty'r Padarn Lake. Dymunir yn dda i'r ddau. Byddant yn cartrefu yng Nghaernarfon.

Y GYMDEITHAS DDrama

Y cynhyrchydd eleni yw Mr. Myrddin Owen, a'r ddrama a ddewiswyd ganddo yw "Llaeth a Mêl", ffars mewn 3 act gan Byron Jones. Bydd yr ymarferion yn cael eu cynnal ar nos Fercher yn festri Preswylfa. Etholwyd y swyddogion canlynol am 1976/7. Llywydd Anrhydeddus: Katie Williams; Cadeirydd: Arwel Jones; Is-gadeirydd: Gwilym Rees Parry; Ysgrifennydd: Gwilym R. Parry; Trysorydd: Jane Morris; Llwyfan: Alwyn Thomas a Dafydd Hughes; Cofweinyddion: Gwyneth Parry; Margaret Parry ag Iwan Lloyd Williams; Cerddoriaeth: Ken W. Morris; Cynhyrchydd: Myrddin Owen; Aelodau o'r Cast: Irfon Elis; Menna Jones; Ann Roberts; Sian Thomas; Meira Jones; Delyth Jones; Katherine Owen; John Owen a Dafydd Price.

O'R AMERICA

Bu Mr. a Mrs. Edwards, Stryd Bethesda ar ymweliad â'r teulu yn Chicago'n ddiweddar. Yno mae eu merch a'r teulu yn byw.

AELWYD YR URDD

Bydd y tymor yn dechrau nos Wener, Hydref 1af am 7.30 yn festri Capel Coch. Tâl Aelodaeth: 50c. Ar Hydref yr 8ed danghosir ffilm newydd Gymraeg symudol!

GWAELEDD

Y mae'r Mri. John Hughes, Walter Roberts a William Evans mewn ysbytai. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau iddynt.

O'R YSBYTY

'Rydym yn hynod falch o glywed fod Mrs. Hannah M. Squires wedi dod adref o'r ysbyty.

Y DOSBARTH ARLUNIO

Bydd dosbarth arlunio dan arweinyddiaeth Mrs. Barbara Owen yn dechrau unwaith eto yn Ysgol Dolbadarn dydd Llun Medi 27ain am 7 p.m.

Profodd yr arddangosfa Haf yn y Ganolfan yn hynod o lwyddiannus a gwehwyd nifer o luniau. Croesawir aelodau newydd.

LLONGYFARIADAU

Ganwyd merch fach — Heledd Don — i Mr. a Mrs. Tony 1, Stryd Newton.

COLLED ARALL

Yn ysbyty Bryn Seiont fore Sadwrn bu farw Mr. Iolen Hughes, Maes Llwyn yn 64 oed wedi dwy flynedd o gystudd blin. Un o fryddloniaid Eglwys Gorffwysfa

ydoedd. Cydymdeimlir â'i briod, ei blant a'r teulu oll yn eu galar.

SEIADAU

Cynhaliwyd Seiadau Efengylaidd gan gwmni o Gristnogion ifanc yn Llanberis a Llanrug drwy fisoedd yr haf. Gan iddynt fod mor llwyddiannus trefnwyd i nifer o siaradwyr ddod i arwain y Seiat yn ystod misoedd y gaeaf hefyd. Mae'r Seiat yn hollol anenwadol a gwahoddir pawb — o bob oedran, ac o'r holl ardal — i'r cyfarfodydd. Cynhelir cyfarfodydd y Seiat Efengylaidd yn festri capel Gorffwysfa, Llanberis am 7.30 ar y nosweithiau canlynol:

Hydref 13 nos Fercher: Y Prifathro R. Tudur Jones, Coleg Bala Bangor

Hydref 21 nos Iau: Cyfarfod Gweddi

Tachwedd 4 nos Iau: Y Parch. Ieuan Davies, Caernarfon

18 nos Iau: Y Parch. Dr. Eryl Davies, Bangor

Rhagfyr 2 Nos Iau: Cyfarfod Gweddi

16 Nos Iau: Astudiaeth Feiblaidd

23 Nos Iau: Cyfarfod Pregethu

30 Nos Iau: Y Parch. John Vevar, Botwnnog.

Gweddwn ar i'r Arglwydd ein bendithio, a defnyddio'r seiadau i ddwyn gogoniant i'w Enw Ei Hun yn yr ardal hon.

Ar ran y Seiat, John Pritchard.

DIOLCH

Mr. John Pritchard, Padarn Road am roi gwasanaeth ym Mhlas Pengwaith mis Awst diwethaf.

NEWYDDION Y BAND

Helena Parry

Bydd y Band yn colli aelod gan fod Helena Parry, Bryn Heli yn mynd i Goleg Aberystwyth i ddilyn cwrs mewn llyfrgellyddiaeth. Mae'r Band a'r Pwyllgorau yn diolch iddi am ei ddiddordeb yn y Band ac yn dymuno'n dda iddi.

PWYLLGOR Y MERCHED

Cynhaliwyd cyfarfod gyda Mrs. Heulwen Williams yn y gadair. Cydymdeimlwyd â hi yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yng nghyfraith yn Llanberis. Penderfynwyd cael cinio Nadolig fel arfer ym mis Rhagfyr.

EISTEDDFOD BUTLINS

Daeth y Band yn 3ydd yn yr Eisteddfod a rhoddwyd canmoliaeth uchel iddynt yn y feirniadaeth.

DIOLCHIADAU

Mae'r Band a'i Bwyllgorau yn dynuno diolch yn fawr i Bwyllgor Carnifal am eu rhodd haelionus tuag at Gronfa Offerynnau y Band.

GWAELEDD

Drwg gennym ddeall mai yn yr ysbyty ym Mangor y mae Mr. John Williams, 49, Glanffynnon a bod Mr. O.D. Griffiths, 12, Glanmoelyn a Mrs. Jones, Lyndale yn ysbyty Eryri, Caernarfon. Dymunwn iddynt oll adferiad buan.

FFAIR FEDI

Cynhaliwyd Ffair Fedi hynod llwyddiannus yn yr Ysgol Gynradd.

yn ddiweddar. Elai'r elw at gronfa adgyweirio Eglwys Sant Mihangel, ac fe garai'r Rheithor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth unwaith eto i'r ymgyrch hon. Diolch hefyd i Mr. Cledwyn Williams am ganiatau i ni gael defnyddio'r Ysgol a diolch i staff y cantin am eu parodrwydd i gynorthwyo.

BEDYDDIO

Yn ystod y misoedd diwethaf bedyddiodd y Parch. W.O. Roberts dair geneth fach perthynol i eglwys ei ofalaeth, sef Nia, merch Owen ac Ann Lloyd Griffith, Hawddamor; Elen Wyn merch Leslie a Carys Parry, Gwynant a Catrin merch Dafydd Whiteside ac Eirianwen Thomas Bron-y-Nant.

SEIAT

Nos Fercher, Medi 22ain dechreuwyd ar gyfres o seiadon yn y Capel Mawr o dan arweiniad y Gweinidog i drafod hanfodion y Grefydd Gristnogol seiliedig ar y llyfryn "Ffeithiau'r Ffydd". Cymerwyd rhan mewn defosiwn gan Mr. Ifan Roberts, Tŷ Capel.

MERCHED Y WAWR

Agorwyd y tymor gyda Noŷon Goffi yn yr Ysgol Gynradd. Âi'r elw at y Sefydliad Coffa. Ymaelolodd llawer o'r newydd. Enillwyd y raffl gan Miss Iona Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 12fed o Hydref pan ddisgwylir Dr Alun Morris i roi sgwrs ar

afiechydon plant. Diolchwyd gan y llywydd Mrs. Nansi Roberts.

DYMUNIADAU

Dymuniadau da i Miss Ellen McKinnon yn ei swydd fel gweithiwr therapiwtig yn Ysbyty Llandudno. Cyn hyn bu Miss McKinnon yn gweithio yn Coventry. Croeso'n ôl Ellen.

YR YSGOL FEITHRIN

Cynhelir Cyfarfod Blyneddol Agored yr Ysgol Feithrin nos Fawrth, Hydref 5ed am 8.00 p.m. yn Ysgol Glanmoelyn. Gwerthfawrogwn gefnogaeth pawb sydd â diddordeb yn yr ysgol i'r cyfarfod hwn.

GRŴP OXFAM

Casglwyd swm o £70 gan Grŵp Oxfam Llanrug ar eu stondin yn Sioe Amaethyddiaeth Caernarfon. Fel gweithgaredd "Wythnos Oxfam" bydd y grŵp yn dangos ffilm yn y Neuadd Goffa, 1af Hydref am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

DYFODOL Y CAE CHWARAE

Nos Wener 8ed Hydref am 6.30 cynhelir cyfarfod cyffredinol Cae Chwarae Llanrug yn y Sefydliad Goffa. Gofynnwn am eich cefnogaeth i'r cyfarfod pwysig hwn. Croeso i bawb.

LLWYDDIANT HOGIA O LANRUG

Bu Mr. John Walsh yn llwyddiannus yn arholiad terfynol Tystysgrif Genedlaethol Uchaf yng Ngholeg Technegol Gwynedd. Mae John yn gweithio gyda Chyngor Arfon fel Cynorthwywr Technegol yn yr adran Gynllunio.

Bu Mr. Gareth Roberts Uwch Swyddog Cynllunio yn yr adran Gynllunio yn llwyddiannus yn yr arholiad am y Dystysgrif Atodol mewn Rheolaeth Datblygiad yng Ngholeg Politegneg Lerpwl. Rhoddwyd canmoliaeth uchel iawn i Gareth gan yr arholwyr.

BEDYDDIO

Yng Nghapel y Bryngwyn, bedyddiwyd Gwenan Mair, merch Gareth a Megan Roberts, Gregynnog gan y Parch. Gwyndaf Evans. Hefyd Owain ap Gruffydd mab Bethan ac Idwal Williams Disgwylfa.

GWELLA

Da gweld fod Mr. Griff Roberts wedi gwella ar ôl ei anffawd ar draeth Dinas Dinlle.

Oherwydd anap i un o beiriannau cysodi'r Wasg ni allwyd unioni'r teip ar rai pytau o newyddion a cholofnau. Gobeithiwn nad yw hyn yn amharu gormod ar eich mwynhad o'r rhifyn hwn. Fe'i cynhyrchwyd dan amgylchiadau anodd.

CYN TROI I BELLAFOEDD BYD — DEWCH

I WELD Y

Marina

AR GARREG EICH DRWS.



CAR DA, DIOGEL
DIBYNADWY. BRITISH
LEYLAND AR
EU GORAU!
GWARANT
12 MIS — FAINT
BYNNAG A
DEITHIWCH

MAE GENNYM
GEIR AIL LAW
RHAGOROL
HEFYDI

GAREJ MINFFORDD



Morris

BETHEL

PERCHENNOG T.R. & S. EVANS
FFÔN
Y FELINHELI **451**

BRYN-REFAIL

CLWB YR EFAIL

Nos Fawrth Medi 21ain cafwyd cyfarfod o Glwb yr Efail o dan lywyddiaeth Mr. G. Pritchard, Glyn Afon. Croesawyd atom Mr. Ieuan James cyn-brifathro Ysgol Brynrefail, Llanrug a rhoddodd ychydig o hanes ei yrfa addysg inni. Rhoddwyd y te gan Mrs. Williams Glanffrwd; Mrs. J. Roberts, Creigle a Miss. B. Owen Orwig Terrace.



Dau o Brynrefail mewn ymrafael â'r bwcedi yn un o gystadleuthau Gemau Giamocs Brynrefail.

PRIODAS

Dydd Sadwrn, Medi 18, priodwyd Miss Shirley Jane Roberts, Bronallt a Mr. Gareth Morris Jones, Caernarfon yng Nghapel M.C. Brynrefail. Gweinyddwyd gan y Parch. G. Angell Jones, Bangor gyda Mrs. L.P. Williams Godre'r Coed wrth yr organ. Rhoddwyd y briodasferch i'w gŵr gan ei brawd Mr. John Foulk Roberts, a gweinyddwyd arni gan Dawn Lum, Gillian Lewis ac Elen Wyn Roberts. Y gwas oedd Mr. Michael Bee (ffrind y priodfab). Bydd y pâr ieuanc yn ym-gartrefu yn Tottenham, Llundain lle mae'r priodfab yn dal swydd gyda'r heddlu. Dymuna Mrs. E.M. Roberts ddolch i lu o gyfeillion am eu dymuniadau da a'r holl anrhegion ar achlysur y briodas.

ORGAN I'R FESTRI

Drwy garedigrwydd Mrs. N. Jones a theulu Meillionen, derbyniwyd organ at wasanaeth y Festri er cof am y diweddar Mr. Hugh Jones. Diddorol oedd deall i hen deulu Mr. Jones gyflwyno'r organ hon at wasanaeth Eglwys M.C. Cwm-y-Glo yn gynnar y ganrif hon. O ganlyniad i ddat-gorffori yr Eglwys ychydig flynyddoedd yn ôl, daeth yr organ unwaith eto i feddiant y teulu. Carai swyddogion ac aelodau Eglwys M.C. Brynrefail ddolch o galon am y rhodd dderbyniol hon.

FFARWELIO AM GYFNOD

Bydd Mrs. Hannah J. Jones, 7, Trem Eilian yn hedfan ar Hydref yr 2ail i Seland Newydd, lle bydd yn treulio chwe mis yng nghwmni

ei mab a'i deulu yn Auckland. Ymfudodd Mr. O. Eirwyn Jones i Seland Newydd un mlynedd ar bymtheg yn ôl. Dymunwn oll daith hapus ac amser hyfryd i Mrs. Jones a gobeithiwn gael gweld cyfarchiad o'i heiddo ar dudalenau'r Eco, o'r wlad bell.

UNDEB Y MAMAU

Cafwyd cyfarfod agoriadol y tymor hwn nos Fercher Medi laf gyda swper ym Mhlas y Bryn, Bontnewydd. Mwynhawyd y noson yng nghwmni grŵp y "New World". Ddydd Sadwrn, Medi'r 4ydd, dan nawdd y clwb, trefnwyd trip i blant ieuengaf y pentref. Treuliwyd diwrnod diddorol yn cael ei flasu gan dywydd ffafriol yn Sŵ Bae Colwyn. Ar y 14eg o Hydref bwriedir cynnal cyngerdd yn y Festri pryd y gwahoddir Parti Glynrhonwy dan arweiniad Mr. Ted Morris, Llanberis ynghyd ag Annette, Olwen a Marina Roberts Dinorwig i gymryd rhan.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cychwynnodd aelodau'r sefydliad yn eiddgar i fwynhau prynhawn yn Llandudno ddydd Sadwrn Medi 11eg. Fe'u siomwyd yn enbyd gan y tywydd gan i'r glaw ddymchwel yn ddibaid. Ond os bu gwlychu drwy law yn ystod y prynhawn, bu gwlychu gan ddagrau chwerthin gyda'r nos wrth fwynhau adloniant penigamp yn Theatr yr Arcadia.

DINORWIG

YN YR YSBYTY

Dymunir gwellhad buan i Mr. John D. Williams, Ty'n Fawnog Uchaf, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynfryn.

PRIODAS

Medi 4, yn eglwys St. Mair priodwyd Miss Gwyneth Thomas, merch ieuengaf Mr. a Mrs. Hugh Thomas, 1, Bro Elidir, a Mr. Gwynedd Jones, mab Mr. a Mrs. Owen J. Jones, 1, Maes Gwylfa, Deiniolen. Gweinyddwyd y seremoni gan y Parch. Idris Thomas brawd y priodferch. Byddant yn cartrefu yn 2, Marian Terrace, Deiniolen.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlir â Mr. a Mrs. Renell Williams, Tanyfron a'r cysylltiadau teuluol ym marw mam Mr. Williams. Hefyd â theulu y diweddar Miss. M. Williams, Lliadiart-y-Clo, a fu farw yn yr Ysbyty ym Mangor.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG

Cynhelir Cyfarfod cyntaf y tymor eleni, nos Iau, Hydref 21ain am 7 p.m. yn y Ganolfan Gymdeithasol, pryd y gwasaneithir mewn cyngerdd gan Barti Lleu, Dyffryn Nantlle. Croeso cynnes i bawb.

DYMUNO'N DDA

Dymunir yn dda i Mr. Kelvin Pleming, 1, Maes Eilian a Mr. Emrys Roberts, Ysgubor, ar ddechrau eu cyrsiau colegol, y naill yn y Coleg Normal a'r llall yn y Coleg Technegol ym Mangor.

DISCO CYMRAEG

Nos Wener, Medi 17eg cynhaliwyd Disco Cymraeg cynta'r fro yng Nghanolfan Cymdeithasol Dinorwig. Profodd y fenter yn hynod o lwyddiannus a'r gobaith yn awr yw y bydd mwy o ddawnsfeydd tebyg yn cael eu cynnal yn y Ganolfan yn y dyfodol agos. Diolch yn arbennig

i Disco'r Graig am ddarparu'r adloniant ag i bawb arall a gyfranodd mor dda i lwyddiant y noson. Bydd yr elw yn mynd at Fudiad Adfer gyda rhodd arian nol fechan i'r papur bro "Eco'r Wyddfa". Trefnwyd y noson gan Gangen Adloniant Dinorwig a'r cylch o Fudiad Adfer.

Colofn y DYSGWR

Bydd dosbarthiadau Cymraeg yn dechrau yn Ysgol Brynrefail ym mis Hydref. Blwyddyn 1 bob nos Fawrth 7 - 9 p.m. Blwyddyn 2 bob nos Fercher 7 - 9 p.m. Dyma gyfle i chi ddysgu siarad Cymraeg a chyfarfod dysgwyr eraill.

Dyma'r atebion o ff i ll -

ffwlbart; gwiwer; ngaf; hwyaden; iar; lo; llygoden.

A dyma i chi wyth arall:

m. Hwch ydy mam ...

n. ydy cobra.

p. Mae cynffon liwgar gan y ...

s. Roedd ... yn yr ardd efo Adda ac Efa.

t. ydy tad y llo.

th. Aeth cath a ... mewn cwch ar y môr.

w. Dydy'r ... ddim yn aros yma dros y gaeaf.

y. Preseb yr ... oedd crud Iesu Grist.

Apêl atoch chi'r Cymry.

Os gwyddoch am unrhyw un neu rai yn y fro sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg a fyddwch cystal â rhoi y wybodaeth isod iddynt.

Cynhelir dosbarthiadau Cymraeg yn Ysgol Brynrefail ym mis Hydref.

Blwyddyn 1 - bob nos Fawrth 7 - 9 p.m.

Blwyddyn 2 - bob nos Fercher 7 - 9 p.m.

TÎM PÊL DROED LLANRUG 1934-35

Cyhoeddwyd darlun o'r tîm uchod yn ein rhifyn diwethaf. Dyma enwau rhai sy'n ymddangos ynddo.

Yn sefyll:

Arthur Pritchard; Myrddin Williams; John Ellis Parry; Myrddin Parry; Bob Orrit; Caerwyn Griffith ac eistedd: Robert Thomas Roberts; Owie Jones; Griffith Emlyn Pritchard; Sam Jones ac Alun Jones.

Mae Mr. B. Davies a roddodd fenthg y llun i ni yn pwysleisio fod pob aelod o'r tîm yn byw yn Llanrug.

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

NANT PERIS

YN YR YSBYTY

Drwg iawn gennym fod dau o'r ardal ar hyn o bryd yn yr ysbyty, sef Mr. Alun Wyn Hughes, Hafod Gynfor a Mr. Meirion Wyn Pritchard, Tŷ Isa. Da gennym ddeall fod y ddau yn gwella a dymunwn fel ardal i'r ddau gael llwyr adferiad ac y cawn eu gweld yn ôl yn ein plith yn fuan iawn. Brysiwch fendio hogia.

DAMWAIN

Drwg iawn gennym glywed i Mrs. Gertrude Morgan, Gwastadnant gael damwain tra'n aros yn nhŷ ei mab ym Methel. Deallwn ei bod hithau'n gwella a dymunwn iddi adferiad i'w chynefin iechyd.

FFARWELIO

Cyn y daw y rhifyn hwn o'r Wasg bydd un arall o hen ardalwyr y Nant wedi ein gadael. Bydd Mr. William Williams, 3, Bro Glyder, (Tŷ'n Ffynnon gynt), yn mynd i drigo i Blas PenGwaith. Gwasanaethodd yr ardal am flynyddoedd fel Cynghorwr ar hen Gyngor Gwyrfai, a bu yn fawr ei sêl dros fuddiannau y Nant yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd colled ar ei ôl yn Nant Peris lle bu yn aelod ffyddlon gydol ei oes. Dymunwn iddo bob hapusrwydd a blynyddoedd eto i fod yn frenin yn y Plas.

PRIODAS ARIAN

Cyn i'r inc ond prin sychu ar ddalennau'r Eco bydd Mr. a Mrs. Alun Wyn Hughes, Hafod Gynfor yn dathlu eu priodas arian. Priodwyd hwy yng Nghapel Rehoboth ar y 6ed o Hydref 1951. Dymunwn i'r ddeuddyn bob bendith a dedwyddwch yn y pump ar hugain nesaf. Hwyl fawr i chwi.

ANRHYDEDD I FLAENOR O'R NANT

Am y tro cyntaf yn hanes Eglwys Rehoboth dewiswyd un o'i blaenoriaid yn Llywydd Henaduriaeth Arfon am ail hanner 1977. Daeth yr anrhydedd i ran y cyfaill Mr. J. W. Elis (Perisfab) Glanrafon. Mae hyn yn anrhydedd iddo ef a hefyd i Rehoboth, a gwyddom y lleinw y swydd i'r ymylon gyda'i ddawn a'i ffraethineb. Llongyfarchiadau calonnog iawn a phob bendith.

CARNIFAL

Cafwyd Carnifal llwyddiannus eto eleni - a gynhaliwyd ar Awst 20 - a gwnaed elw o £60.00. Bydd yr arian yma yn cael ei roi tuag at y gronfa sydd eisoes wedi eu hel dros y blynyddoedd at gael cae chwarae i'r plant.

O Wasg Gwynedd -

Allan yn FUAN

Argraffiad newydd o "DEWCH I ADRODD"

a chyfrol newydd "DEWCH I ADRODD ETO"

gan Selwyn Griffith

CREU A CHYNNAL

gan ROBIN GWYNDAF (Parhad)

LLÊN A LLAFAR BRO

Ar derfyn hyn o lith a gaf i ofyn i chi yn garedig gofnodi'r hyn a wyddoch am eich ardal: chwilio ymhlith llawysgrifau, megis dyddiaduron, llyfrau cyfrifon crefftwy'r ac eraill, llythyrau neu gasgliadau o farddoniaeth. Gwerthfawr hefyd yw casglu lluniau sy'n adlewyrchu bywyd y fro. Pwysicach na dim, fodd bynnag, yw holi rhai o'r to hynaf sy'n fyw heddiw. Y mae cyfoeth o wybodaeth llafar gwlad ar gadw yn eu cof. Y maen nhw fel hen lawysgrifau prin heb i neb erioed eu darganfod ac yn aros am i rywrai eu hagor i ganfod y cyfoeth sydd y tu mewn. Peidiwn ag oedi'n rhy hir.

Gwn y bydd golygydd a darllenwyr y papur hwn yn falch dros ben o unrhyw wybodaeth. Beth hefyd am ei anfon i'w gadw yn eich archif sirol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru neu Amgueddfa Werin Cymru (Sain Ffagan, Caerdydd), gan nodi manylion, megis: gan bwy y cawsoch y wybodaeth, enw'r ardal, etc. Byddai gwneud hyn yn gymwynas fawr.

Er hwylustod ichi, dyma rai pynciau y gallwch gael llawer o wybodaeth amdany'n nhw drwy holi eraill ar lafar neu drwy gofnodi yr hyn sy'n wybyddus eisoes i chi:

1. Geirfa ac ymadroddion iaith lafar eich ardal, gan gynnwys dywediadau ffraeth neu ddoeth cymeriadau'r ardal.

AR WERTH

Matras gwely cot ar werth mewn cyflwr ardderchog
Ffôn: Llanberis 533.

Bwrdd Cegin Formica Top, Coesau Beech. Pedair Cadair. 2 lef a drôr — £20. Llanberis 357.

Planced Drydan fel newydd £5
Gareth Jones,
8, Cae Garreg, Caernarfon.

Caricot ac Olwynion. Gwyrdd.
Fel newydd — £8. Ffôn: Llanberis 220.

Dwy Delyneg: — "Gwên" a "Gwg"

Gwên (Merch ifanc)

Gwelais hi, —

yn wên o glust i glust
ar rodfa'r allor,

A gwrid ei swildod

Yn crasu'r dagrau llawenydd,
— dan gyrten ei phenwisg

Clic y camerau

Yn denu'r direidi i'w llygaid,
A'r wên yn byrstio,

— dan y gawod gonffeti.

2. Caneuon gwerin, hen emynau a charolau, hen gerddi a baledi, hen benillion, hwiangerddi a rhig/mau, a cherddi yn adrodd hynt a helynt dyn yn y gymdeithas, yn arbennig ei droeon trwstan.

3. Storiâu gwerin yn cynnwys: storiâu celwydd golau (Pwy yn eich ardal a oedd yn enwog am ei gelwyddau?); storiâu a thraddodiadau am bersonau a digwyddiadau hanesyddol; storiâu a thraddodiadau am enwau lleoedd, caeau, cerrig, llynnoedd, ffynhonnau, ogofeydd, ac ati; storiâu a thraddodiadau am Dylwyth Teg, cewri, y diafol, dewiniaid, gwrachod ac ysbrydion.

4. Coelion gwerin.

5. Arferion gwerin, yn cynnwys er enghraifft, arferion yn gysylltiedig â gwyliau'r flwyddyn megis Y Nadolig, Calan Ionawr, Y Pasg, Calan Mai, Calan Gaeaf, ac arferion yn gysylltiedig â chylch bywyd dyn: geni, tyfu, caru, priodi, byw a marw.

6. Byd natur.

7. Chwaraeon ac adloniant.

8. Meddyginiaethau gwerin (pobl ac anifeiliaid).

9. Y cartref.

10. Bwydydd traddodiadol.

11. Gwisgoedd.

12. Amaeth a chrefft.

YN EISIAU

Ceffyl Pren ar gyfer plentyn 3 mlwydd oed. Ffôn: Llanberis 782.

Drawing Board. Unrhyw faint.
Bron Wylfa, Llanrug. Ffôn: C'fon 3446.

Stof Primer — dau dân. Ffôn: Llanberis 220.

Car rhubanog

Yn ei chipio i'w hwythnos-fis-mel,
A'r bedol-lwc-dda
Yn crafu'r gwreichion o'r briffordd.

Diflannodd, —

i fwrw'i swildod, —

Yn fwndel o wên.

Gwg (Hen ferch)

Gwylais hi, —

mor oer a cherflun,
yn sarrug sbecian

Tu ôi i gyrten-siop-wedi-cau ei llofft.

Rhialtwch grisiau'r capel

Yn berwi ei chwerwder,

A gwg surbwchaid

Ar fap ei hwyneb.

Dyddiadur y Mis

Hydref 1. Gwener. — 1. Clwb yr Henoed, Llanberis yn cyfarfod. 2. Cyfarfod cyntaf Aelwyd yr Urdd, Llanberis yn Festri Capel Coch am 7.30 (oedran 14-25) Trefnu noson. 3. Clwb Eryri yn dathlu ei ben-blwydd yn 21ain gyda chinio yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. 4. Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys Penisarwaun am 7.30. 5. Noson Goffi yn y Clinic, Deiniolen am 7.00. 6. Grŵp Oxfam Llanrug yn dangos ffilm yn y Neuadd Goffa am 7.30. 7. Adran Urdd Bethel yn dechrau tymor newydd yn yr ysgol am 6.30

Hydref 4. Llun. — 1. Clwb Methodist Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan, Llanberis am 2 o'r gloch. 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan, Llanberis am 7.30. 3. Dosbarth Nos Arlunio yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis am 7.00. 4. Dosbarth Nos "Hanes Cymru" yn Ysgol Gynradd Llanrug am 7.00. 5. Pwyllgor Eisteddfod Eglwys M.C. Llanberis a Nant Peris yn Festri Capel Coch am 7.00. 6. Ffair Sborion dan nawdd Cangen Plaid Cymru, Deiniolen yn Clwt-y-Bont.

Hydref 5. Mawrth. — 1. Undeb y Mamau Llanberis yn cyfarfod. 2. Dosbarth Nos "Hanes Cymru" yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen am 7.00. 3. Cyfarfod Blynnyddol agored yr Ysgol Feithrin, Llanrug yn Ysgol Glanmoelyn am 8.00. 4. Capeli M.C. Llanberis. Cyfarfod Gweddi am 7.00 yn Festri Gorffwysfa.

Hydref 6. Mercher. — 1. Clwb y Mamau, Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30. 2. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (oedolion) yn cyfarfod yng Ngwesty'r Fictoria. 3. Cwmni Drama Llanberis yn cyfarfod yn Festri Preswylfa am 7.30. Hydref 7. Iau. — 1. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (dan 18 oed) yn cyfarfod yn y Ganolfan. 2. Cyfarfod Agoriadol o Gymdeithas Lenyddol Brynrefail yn Festri'r Capel am 7.00.

Hydref 8. Wener. — 1. Cyfarfod Cyffredinol "Cae Chwarae Llanrug" yn y Sefydliad Goffa. 2. Aelwyd yr Urdd Llanberis yn Festri Capel Coch am 7.30. "Ffilm."

Hydref 11. Llun. — 1. Clwb Methodist Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan Llanberis am 2 o'r gloch. 2. Gyrfa Chwist dan nawdd Clwb Pêl Droed, Llanberis yn y Ganolfan am 7.30. 3. Dosbarth Nos Arlunio yn Ysgol Dolbadarn Llanberis am 7.00. 4. Clwb y Rhos, Bethel yn dechrau tymor newydd yn yr Ysgol am 7.30 yng nghwmni y Parch Eryl Ll. Davies. 5. Sefydliad y Merched, Deiniolen yn cyfarfod. 6. Dosbarth Nos "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd Llanrug am 7.00. 7. Merched y Wawr Cangen Deiniolen yn cyfarfod yng nghwmni Mrs. Eirlys Hughes o MANWEB pryd y ceir arddangosfa coginio.

Hydref 12 Dydd Mawrth. — 1. Cyfarfod misol o Undeb y Mamau Cwm-y-Glo yn yr Ysgol. 2. Dosbarth Nos "Hanes Cymru" yn Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen am 7.00. 3. Merched y Wawr, Cangen Llanrug yn cyfarfod yn yr Ysgol yng nghwmni Dr. Alun Morris. 4. Clwb yr Henoed Deiniolen yn cyfarfod.

Hydref 13. Mercher. — 1. Merched y Wawr, Cangen Bethel yn cyfarfod yn yr Ysgol pryd y bydd Mrs. S. Roberts Caernarfon yn rhoi sgwrs ar "Drefnu Blodau". 2. Taith

Cyfarthiad "pwdlyd"

Yn cynhyrfu ei chalon,
A'r cyrliog gwerth-y-byd
Yn llyfu ei weflau,

—dan y gwely sengl.

Dwrddio moethus, —

a gwg,

Uwch gweddillion rhacsiog y pantalŵns.
Selwyn.

Sefydliad y Merched Cangen Gwynedd Caernarfon i Birmingham. 3. Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30. 4. Capel Mawr Llanrug — cwsr arbennig i athrawon a darpar-athrawon Ysgol Sul o 7 hyd 9 o'r gloch. 5. Merched y Wawr Cangen Cwm-y-Glo yn cyfarfod yn yr Ysgol yng nghwmni Mrs. Morgan Jones Waunfawr.

Hydref 14. Iau. — 1. Undeb y Mamau Brynrefail yn cynnal Cyng-erdd yn y Festri yng nghwmni Parti Glynrhonwy ag Annette, Olwen a Marina, Dinorwig. 2. Cangen Plaid Cymru Llanberis yn cynnal Noson Amrywiaethol yng nghwmni Cangen Bethel yn y Ganolfan Llanberis am 7.30.

Hydref 15. Gwener. — 1. Clwb yr Henoed Llanberis yn cyfarfod. 2. Aelwyd yr Urdd Llanberis yn cyfarfod yn Festri Capel Coch am 7.30. 3. Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys Penisarwaun am 7.30.

Hydref 18. Dydd Llun. — Dydd Diolchgarwch Eglwys M.C. Llanberis. Gŵyl Ddiolchgarwch am 2 o'r gloch yng Nghapel Coch "Gwasanaeth y Plant".

Hydref 19. Mawrth. — 1. Dosbarth Nos "Hanes Cymru" yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen am 7.00. 2. Cwm-y-Glo — Ffair y Cynhaeaf am 7.00. Yr elw er budd Eglwys St. Mihangel.

Hydref 20. Mercher. — 1. Clwb y Mamau Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30. 2. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (oedolion) yn cyfarfod yng Ngwesty'r Fictoria. 3. Cwmni Drama Llanberis yn cyfarfod yn Festri Preswylfa am 7.30.

Hydref 21 Iau. — 1. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (dan 18 oed) yn cyfarfod yn y Ganolfan

2. Cymdeithas Lenyddol Undebol Dinorwig yn agor tymor newydd yn y Ganolfan Gymdeithasol am 7.00 yng nghwmni Parti Lleu, Dyffryn Nantlle.

Hydref 22. Wener. — Aelwyd yr Urdd Llanberis yn cyfarfod yn Festri Capel Coch am 7.30.

Hydref 25. Llun. — 1. Clwb Methodist Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan Llanberis am 2 o'r gloch. 2. Gyrfa Chwist yn y Ganolfan Llanberis am 7.30. 3. Dosbarth Nos Arlunio yn Ysgol Dolbadarn Llanberis am 7.00. 4. Dosbarth Nos "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd Llanrug am 7.00. 5. Eglwys M.C. Llanberis... Y Gymdeithas Lenyddol yn Festri Capel Coch am 7.15. 6. Cyfarfod Blynnyddol o Cangen Plaid Cymru Deiniolen yng Nghlwt-y-Bont am 7.00.

Hydref 26. Mawrth. — 1. Clwb yr Henoed Deiniolen yn cyfarfod. 2. Cyfarfod misol o Sefydliad y Merched Penisarwaun. 3. Dosbarth Nos "Hanes Cymru" yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen am 7.00.

Hydref 27. Mercher. — 1. Clwb y Mamau, Bethel yn cyfarfod yng nghwmni Mr. Gwynfor Williams, swyddog gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans, yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.

2. Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30. 3. Cwmni Drama Llanberis yn cyfarfod yn Festri Preswylfa am 7.30.

Hydref 28. Iau. — 1. Sefydliad y Merched Llanberis yn cyfarfod yng nghwmni Mrs. Barbara Owen yn y Ganolfan am 7.00.

Hydref 29. Gwener. — 1. Clwb yr Henoed Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan. 2. Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys Penisarwaun am 7.30. 3. Cangen Plaid Cymru Llanrug Noson o Ffilmiau gan y Cyngorydd Gwynndaf Jones.

DYDDIADAU I'W COFIO

Tachwedd 3. Noson Goffi yn y Neuadd Bentref Bethel.

Tachwedd 11. Disco yn y Ganolfan Llanberis.

Tachwedd 11 a 12. — Eisteddfod Gadeiriol Bethel.

Tachwedd 26. — Arwerthiant er budd Clwb Blodau'r Grug, Llanrug.

Rhagfyr 3. — Eisteddfod Eglwys St. Peris a St. Padarn.

Rhagfyr 10. — Cinio Nadolig Sefydliad y Merched, Deiniolen ym Mhlas Maenan, Llanrws.

Rhagfyr 11. — Cinio Nadolig Cangen Plaid Cymru, Deiniolen yng Ngwesty George IV Cricieth.

Fe gofiwch i ni gyhoeddi yn rhifyn Gorffennaf o'r Eco lun tîm pêl droed Clwt-y-Bont 1926, wel, felly y tybiwn ar y pryd beth bynnag. 'Doedd dim syniad gen i fod dim o'i le nes i mi gyfarfod â Mr. Emlyn Griffiths ar faes Caernarfon a chael ar ddeall ganddo nad oedd "bywyd yn werth ei fyw bellach" gan fod pawb yn tynnu ei goes — "lle ma' dy gap di rhen Em? oedd cwestiwn pawb, medda fo.

Mr. Griffiths, sy'n byw bellach yn Rhiwlas yw'r bachgen â'r cap mawr yn sefyll ar y chwith yn y rhes ôl yn y darlun "a tasai'n dwad i hynny", aeth ymlaen "nid tîm Clwt-y-Bont oedd o, ond hogia wedi dod at ei gilydd i chwarae yng nghystadleuaeth gŵyl y Pasg yn Llanberis. Ond mi o'n i'n falch o weld llun yr hogia cofia" medda fo, a rhyw wên fyfyrïol ar ei wyneb.

Ni fu hir oes i'm gobaith nad oedd neb arall wedi sylwi ar y cawl gan i lythyr ddod drwy'r post ddeuddydd yn ddiweddarach o law Mrs. Nel Hughes, Erw Fair, Deiniolen. Mae hithau'n bendant nad tîm Clwt-y-Bont oedd hwn, gan fod ei diweddar ŵr, un o Ddyffryn Nantlle, wedi chwarae yn eu herbyn droeon, a hithau yn eu gwyllo. Mae Mrs. Hughes yn ychwanegu fod wyth o'r rhai sydd yn y darlun wedi eu claddu, fod pedwar yn byw yn Neiniolen, un yn Llanberis, Bethel, Caernarfon a Birmingham a bod "Duke" sy'n

cael ei adnabod bellach fel John Morris Jones yn byw yn Nhregarth.

Brawd Emlyn Griffiths, sef Mr. W.S. Griffiths, Victoria Terrace, Deiniolen oedd y nesaf i gysylltu â mi. Fo oedd Wil Sam sy'n eistedd yng nghanol y rhes flaen yn y darlun, ond 'doedd o ddim yn gas, — mae'n amlwg na fu neb yn tynnu ei goes o, beth bynnag.

Daeth â darlun i mi o dîm go iawn Clwt-y-Bont yn 1926, a dyma ei gyhoeddi — gan obeithio — a chroesi bysedd!

Yn sefyll yn y rhes ôl mae Rolant M. Rowlands (Ysgrifennydd) Hughie Jones, Robert Morris, Arthur Rees Jones, John Hughes a John Williams. Yn y canol mae Emlyn Griffiths (heb ei gap y tro yma) Richard Owen a Robert Hughes ac yn eistedd William Wyn Davies, David John Davies, William S. Griffiths, William J. Parry (a dyma'r unig un nad oedd yn byw yng Nghlwt-y-Bont) ac Erasmus Parry.



GWYDDDBWYLL

Mae tymor Clwb Gwyddbwyll Llanberis ar ddechrau, a bydd yn cyfarfod yng Ngwesty'r Victoria pob nos Fercher am saith o'r gloch o ddechrau'r mis ymlaen. Bydd cyfarfodydd i'r aelodau ieuengaf yn y ganolfan pob bythefnos, ar nos Iau.

Llynedd, ym mlwyddyn gyntaf y clwb fe'u cynrychiolwyd yng Nghynghrair Gwynedd gan ddau dîm. Bu'r tîm A yn aflwyddiannus iawn gan orffen y tymor ar waelod y gynghrair, ond teg fyddai dweud mai dyma'r profiad cyntaf iddynt o chwarae gwyddbwyll cystadleuol.

Pedwerydd yn y gynghrair oedd tîm B. Mae gobaith am ganlyn iadau gwell y tymor hwn, gan fod rhai chwaraewyr addawol iawn ymysg yr aelodau ieuengaf, a bwriedir rhoi cyfle iddynt yn y gynghrair eleni.

Drwy garedigrwydd Mr. Owen, prifathro Ysgol Dolbadarn y bu'r Clwb yn cyfarfod y llynedd, ond cynnal cystadleuthau'r gynghrair

yng Ngwesty'r Victoria. Yno hefyd cynhaliwyd ymryson gwyddbwyll brys ym mis Mawrth, a Mr. Dafydd Wigley, A.S. yn ei agor.

Mae'r Clwb yn ddiolchgar iawn i bwyllgor Carnifal Llanberis am y rhodd ariannol, a'u galluogodd i brynu setiau gwyddbwyll a'r clociau sy'n angenrheidiol ar gyfer cystadleuthau'r gynghrair.

Mae gwahoddiad cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno â'r clwb.

CODI PWYSAU

Mae'r tymor Codi Pwysau wedi dechrau hefyd, a bu Clwb Llanrug yn cyfarfod yr wythnos ddiwetha' am y tro cyntaf.

'Rwy'n deall fod lle i ddau aelod newydd eleni, ond pwysleisir y dylai y rhai sy'n dymuno ymgymryd â'r sbort yma fod â diddordeb a chysegriad llwyr gan fod y ddisgyblaeth oddi mewn i'r clwb o radd broffesiynol.

Beth amdani hogia? Mae'r Clwb yn cyfarfod pob nos Fawrth, nos Iau a ph'nawn Sadwrn.

CWPAN CYNGHRAIR YR HAF

Daeth tyrfa dda i gae pêl droed Llanberis nos Lun, y 6ed o Fedi i wyllo tîm o'r pentref yn gwrthwnebu tîm Ysgol Brynrefail yn rownd derfynol Cwpan Cynghrair yr Haf. 'Roedd hi'n dipyn o local darbi hyd yn oed dau frawd yn chwarae yn erbyn ei gilydd. Yn wir, nid codi'r cwpan oedd yn bwysig mewn ennill ond yr hawl i ddangos gwyneb ar strydoedd Llanbêr ar ôl y gêm;



Tîm Ysgol Brynrefail: Selwyn Griffith, Ken Jones, Michael Roberts, Kelvin Fleming, Iwan Williams, Sel. Allsup, Len Jones, Dafydd Evans, Howyn Jones, Dick Parry, Kevin Davies, Kelvin Jones, Brian Reay.

Y DARBI

Nos Fercher Medi 1af ar gae Eithin Duon

Llanrug 2 Llanberis 0

"Mae coesau bionig gan Hefin" yw'r geiriau ar faner rhai o gefnogwyr ifanc Llanrug, a hawdd credu hynny gan iddo sgorio 6 allan o 7 gôl Llanrug yn eu tair gêm gyntaf. 'Roedd yn amlwg hefyd fod Llanberis yn credu'r geiriau, oherwydd bu gwyllo manwl arno drwy gydol y gêm, ac am unwaith, methu sgorio fu ei hanes. Ond 'roedd chwaraewyr eraill gan Llanrug oedd yn gwybod sut i anelu am y gôl, ac 'roedd dwy gôl yn yr ail hanner yn ddigon iddynt ennill y gêm a llawn haeddu'r fuddugoliaeth dros yr hen elyn.

Gêm dda oedd hon, — Norman Davies a Brian Jones yn cyfuno i roi cyfle i Lanrug, yna Sel Allsup a Kelvin Jones yn gyrru Barry Pitts drwodd i Lanberis a digon o ddigwyddiadau cyffrous o flaen y ddwy gôl. Chwaraewyr canol cae Llanberis ddaeth agosaf i sgorio iddynt yn yr hanner cyntaf ac unwaith peniwyd y bêl ganddynt yn erbyn y postyn, ond ar y cyfan, tîm Llanrug oedd y peryclaf, a'r tebycaf o sgorio.

O fewn munud o ddechrau'r ail hanner 'roedd Llanrug ar y blaen yn dilyn gôl Iwclus iawn. Tra'n ceisio taro'r bêl ar draws y gôl, llwyddodd Norman Davies i roi rhyw sbin arni, a rhywfodd plygodd ei ffordd i'r rhwyd. 'Roedd amddiffynwyr Llanberis wedi eu hysgwyd, ac aeth pethau'n draed moch arnynt ar ôl hynny; a Llanrug yn ymosod yn ddidrugaredd. Er hynny bu'n rhaid iddynt aros tan y deng munud olaf cyn sgorio'r ail gôl, ond 'roedd yn werth disgwyl cyhyd i'w gweld. — Hefin Pritchard yn rhoi'r bêl i Geraint Hughes, ac yntau'n ei tharo ar y tro yn galed i gornel uchaf y rhwyd. 'Roedd yn gôl werth ei blasu gan gefnogwyr Llanrug, yn enwedig gan iddi roi'r sêl ar guro Llanberis.

LLANRUG

Llanrug 1 Bethesda 2

Colli am y tro cyntaf y tymor

'Roedd hi'n gêm reit dda hefyd ar y cyfan, o gofio fod amryw o dîm yr Ysgol wedi hongian eu 'sgidiau ers blynnyddoedd, a gwelwyd naw gôl ynddi: chwech i'r Ysgol a thair i Lanberis — buddugoliaeth hawdd iawn i ddweud y gwir. 'Doedd 'na fawr o siâp ar amddiffynfa Llanberis gan i hen ddyn fel Dafydd Evans sgorio tair, Brian Reay, Kevin Davies a Kelvin Jones yn cael tair arall.

John Williams, Barry Pitts ac Ieuan Evans fu'n llwyddiannus i Lanberis.

hwn, a Bethesda'n concro'r dilyw yn well na Llanrug. Yn wir, 'roedd glaw mor drwm nes i ddau o hogia Llanrug fethu â chwarae yn yr ail hanner. Jackie Smith fu'n llwyddiannus o'r smotyn gwyn.

Sadwrn Medi 18

Llanrug 1 Talysarn 1

Cwpan Iau Gogledd Cymru: gêm flêr, anniddorol, a Jackie Smith eto yn sgorio i Lanrug ym munudau ola'r gêm i sicrhau ail chwarae yn Nhaly-sarn.

Sadwrn Medi 25 Talysarn 2 K

Sadwrn Medi 25
Talysarn 2 Llanrug 1

Ail chwarae am y Cwpan a gêm ddigon sâl oedd hon eto. Daeth llawer cyfle i sgorio i ran y ddau dîm, ac ar gyfartaledd roedd Talysarn yn haeddu'r fuddugoliaeth. Jackie Smith yn sgorio eto i Lanrug.

LLANBERIS

Llanberis 2 Caernarfon Untd. 3

Ar ôl curo tîm y Brifysgol wythnos ynghynt o 12 gôl i 3, daeth hogia Llanberis ar y cae ddydd Sadwrn yn ffyddiog iawn, a dylent fod wedi ennill y gêm yn yr ugain munud cyntaf. 'Roedd eu chwarae yn llawn dychymyg, a'r tîm yn cydweithio fel uned effeithiol, ond er yr holl bwyso ar gôl Caernarfon 'doedd dim i'w ddangos ganddynt ond un gôl gan Barry Pitts. Bu Gareth Williams yn anlwcus neu'n ddifeddwl cyn diwedd yr hanner, gan roi'r bêl yn llwybr un o flaenwyr Caernarfon wrth geisio ei rhoi i'r golgeidwad, a dyna'r sgôr yn gyfartal.

Ba'r amddiffynfa oedd ail gôl Caernarfon hefyd, ac er i Barry Pitts ei gwneud yn gyfartal eto, i'r cofis yr aeth y gair olaf, a'r sgôr derfynol yn 3 - 2.

Mae fy niolch yn ddiffuant i Lal Jones am adroddiadau o gemau Llanberis, ac i Dafydd Whiteside Thomas am yr un gymwynas ynglŷn â Llanrug, ac yn enwedig iddo am ei adroddiad manwl o'r gêm darbi. Prinder gofod yw'r rheswm na ellid ei gyhoeddi'n llawn.